Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Anogwyr Dysgu Cymru

Crynodeb

Yr **Athro Danny Saunders**
Prifysgol Morgannwg a
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Awst 2008

Llwybrau Dysgu 14–19

Anogwyr Dysgu

Anogwyr Dysgu Cymru
Crynodeb Gweithredol

Cynulleidfa	Bydd hwn yn berthnasol i bawb sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu Addysg ar gyfer yr ystod oedran 14-19.
Trosolwg	Mae'r crynodeb hwn yn nodi manylion ymchwil y garfan gyntaf o Anogwyr Dysgu yng Nghymru.
Camau i'w cymryd	Dim angen ymateb
Rhagor o wybodaeth	14-19@wales.gsi.gov.uk www.cymru.gov.uk/llwybraudysgu
Copïau ychwanegol	Gallwch gael gafael ar y ddogfen hon o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy
Dogfennau cysylltiedig	Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Llwybrau Dysgu 14-19; Canllawiau I Llwybrau Dysgu 14-19; Canllawiau II Cymorth Anogwyr Dysgu Llwybrau Dysgu 14-19 Cynigion ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)

ISBN 978 0 7504 4754 6 Awst Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2008

1. Rhagarweiniad

Mae Anogwyr Dysgu yn gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion, colegau, gweithleoedd, canolfannau gyrfa a chlybiau ieuenctid. Daw'r anogwyr o gefndiroedd amrywiol yn cynnwys athrawon, gweithwyr ieuenctid, cynghorwyr gyrfa, cynorthwywyr dosbarth a hyfforddwyr cwmnïau. Mae dau fudd allweddol yn sail i'w gwaith: (i) helpu rhai 14–19 oed i ddatblygu sgiliau astudio priodol a (ii) hwyluso dewis rhwng yr opsiynau a ddarperir gan y Rhwydweithiau Dysgu yng Nghymru. Crynodeb yw hwn o waith ymchwil mwy manwl[1] yn ymwneud â'r garfan gyntaf o Anogwyr Dysgu yng Nghymru; mae'n dechrau gyda chynllunio a chyflwyno rhaglen hyfforddi genedlaethol ac yn gorffen gyda set o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n deillio o arolygon ac astudiaethau achos o anogwyr a'u dysgwyr.

Y nodwedd sy'n diffinio'r Anogwr Dysgu yw "anogaeth" sy'n seiliedig ar helpu pobl ifanc i wneud synnwyr o fydoedd dysgu amrywiol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

> *…although coaching is about techniques, it is primarily about attitude. It is about challenging the popular culture that says 'things are terrible and we can only expect worse' and replacing it with a mindset that says 'anything is possible if what we believe in is worth it and we will find a way to achieve it*[2]*.*

Mae'n ymwneud â mwy na dim ond ysgol neu goleg, neu gymwysterau ac arholiadau. Mae'r Anogwr Dysgu yn llenwi'r bobl ifanc â hyder a chwilfrydedd er mwyn datblygu eu diddordebau a'u cyflawniad; pethau sy'n aml yn cael eu hanwybyddu wrth ddefnyddio dulliau mesur cyrhaeddiad safonol. O ganlyniad mae dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol yn agweddau allweddol sy'n cyd-fynd ag addysg a chymwysterau ffurfiol.

Mae Cymru yn ei diffinio ei hun fel y Wlad sy'n Dysgu[3] sy'n cynnwys llwybrau y bydd pobl ifanc yn eu dilyn er mwyn datblygu sgiliau a

[1] **Saunders D (2008)** *Anogwyr Dysgu Cymru;* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd
[2] **Thomas W a Smith A (2004)** *Coaching solutions – a practical way to improve performance in education;* Network Educational Press, Stafford (tudalen 25)
[3] **Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)** *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

chyflogadwyedd. Gellir creu llwybrau yn ogystal â'u dilyn, ac mae ar bobl ifanc angen cymorth pan fyddant yn dod wyneb yn wyneb â llu o sefydliadau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant. Bydd hyd y daith yn mynd yn fwyfwy cymhleth wrth i ddarparwyr dysgu rannu adnoddau a ffurfio consortia rhwydwaith er mwyn cynyddu opsiynau, cyfleoedd a dewisiadau i bobl ifanc. Felly mae'r polisi sy'n berthnasol i weledigaeth y Wlad sy'n Dysgu yn pwysleisio swyddogaeth allweddol yr Anogwr Dysgu[4]:

> *Mae'n debyg mai un o'r newidiadau mwyaf fydd cyflwyno Anogwyr Dysgu. Bydd y rhain yn gweithio ochr yn ochr â'ch athrawon a'r Cynghorydd Gyrfaoedd i'ch helpu i gynllunio'ch Llwybr Dysgu. Y cynnig yw bod Anogwr Dysgu fel hyfforddwr chwaraeon, yn cysylltu â chi'n gyson i gynnig cyngor ac anogaeth reit drwy'ch Llwybr Dysgu.*

I genedl sydd wedi ymroi i deithiau dysgu, mae'r trosiad daearyddol yn arwyddocaol. Rhaid cael gwybodaeth a chanllawiau ynghylch sut i adnabod llwybr, pryd i ymuno ag ef, lle mae'n mynd, pa ganghennau sydd iddo, pwy sydd yno i helpu ar hyd y daith, a'r cyfeiriadau i fynd. Ar ben hynny – dylai'r llwybr herio ac ymestyn diddordebau a galluoedd, a bydd hyd yn oed yn apelio at deithwyr nad ydynt, o bosibl, eisiau mynd ar y daith yn y lle cyntaf.

Daw polisi yn fyw pan fydd iddo dystiolaeth o'i weithredu. Dyma a ddigwyddodd pan arbrofodd un ysgol gyfun ym Merthyr Tudful â rôl "anogwr datblygu", gan ddenu tîm o weithwyr ieuenctid arbenigol a fu'n helpu pobl ifanc wedi ymddieithrio trwy gwricwlwm amgen. Bu'r prosiect yn ysbrydoliaeth i wyth astudiaeth beilot bellach ledled Cymru cyn i raglen hyfforddi ffurfiol recriwtio Anogwyr Dysgu o ddau ar hugain o bwerdai'r Rhwydwaith Dysgu sydd wedi'u lleoli ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae angen cofnodi'r profiadau cynnar pwysig hyn, a'r hyn sy'n dilyn yw crynodeb o waith ymchwil llawn yn nodi manylion y dogfennau cefndir, y rhaglen hyfforddi, astudiaethau achos o anogwyr a dysgwyr, a chyfres o awgrymiadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae profiad y garfan gyntaf yn rhoi darlun o waith aml-asiantaeth yn seiliedig ar y ffyrdd y gall Anogwyr Dysgu ategu gwaith gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr eraill sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc.

[4] **Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)** *Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19 II;* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

2. Y Rhaglen Hyfforddi

Yn 2005 cynlluniodd y bartneriaeth addysg uwch *Campws Cyntaf*[5] a Llywodraeth Cynulliad Cymru hyfforddiant wedi'i achredu ar gyfer y garfan gyntaf o Anogwyr Dysgu. Yn dilyn ymarfer ymgynghori manwl gyda rhanddeiliaid[6], nodwyd pum maes pwnc craidd: Y Broses Fentora, Hyfforddi i Ddysgu, Strategaethau Astudio, Deddfwriaeth, a Chyfeirio.

Yn ystod y 19 mis a ddilynodd cynhaliwyd 140 o weithdai mewn 18 o ganolfannau ledled Cymru fel rhan o'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y garfan gyntaf o anogwyr. Roedd 299 o gyfanogwyr, ac aeth 210 ohonynt ymlaen i gwblhau'r hyfforddiant i gyd. Menywod yw dwy ran o dair o'r anogwyr, roedd un rhan o ddeg ohonynt o dan 30 oed ar ddechrau'r hyfforddiant, ac roedd y mwyafrif wedi cymhwyso i lefel 4 ac uwch (gyda llai na phump y cant wedi cymhwyso i lefel 2 neu is[7]). Dengys ystadegau pellach fod eu chwarter yn byw yn y canolbarth a'r gogledd, mae gan un rhan o bump ddigon o afael ar yr iaith Gymraeg i weithio ynddi, a'r prif leoliad ar gyfer anogaeth yw'r ysgol neu'r coleg.

Ffigwr 1: Cefndiroedd galwedigaethol Anogwyr Dysgu



[5] Un o gonsortia Ymgyrraedd yn Ehangach CCAUC yn cynnwys Prifysgolion Morgannwg, UWIC, Casnewydd a Chaerdydd. Mae Campws Cyntaf yn targedu dysgwyr sy'n tangyflawni sy'n profi lefelau sylweddol o anfantais addysgol.

[6] Mynychodd dros 70 o gyfranogwyr weithdai cwricwlwm yn y gogledd a'r de yn cynrychioli ysgolion, colegau, gwasanaethau ieuenctid, Gyrfa Cymru, darparwyr hyfforddiant preifat, rhwydweithiau dysgu awdurdod lleol, partneriaethau pobl ifanc, undebau athrawon a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[7] Yn ôl diffiniad Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

Diffiniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru dri chanlyniad pendant ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus: Cydnabyddedig (ar gyfer y rhai hynny a oedd wedi cymryd rhan ym mhob un o'r gweithdai hyfforddi ond na wnaethant gyflwyno gwaith cwrs i'w asesu), Achrededig (ar gyfer y rhai hynny a basiodd bob un o'r 5 modiwl ar ôl cyflwyno aseiniadau gwaith cwrs), a Chymwysedig (canlyniad mwy hirdymor yn y dyfodol yn arwain ymlaen o'r cyfnod peilot ar sail cwblhau credydau ychwanegol yn arwain at ddyfarniad addysg uwch).

Gwerthuswyd hyfforddiant y flwyddyn gyntaf yn allanol[8], gan ddod i'r casgliadau canlynol:

- Dylai recriwtio anogwyr yn y dyfodol werthfawrogi set graidd o sgiliau cymdeithasol ac emosiynol sy'n eu galluogi i weithio gyda phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol eraill ac mewn rhai achosion, teuluoedd pobl ifanc.

- Mae Anogwyr a chydgysylltwyr Rhwydwaith yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant, er iddynt nodi bod rhywfaint o'r cyflenwi ac achredu dysgu trwy brofiad blaenorol wedi bod yn faen tramgwydd ar y dechrau.

- Dylai Rhwydweithiau sefydlu systemau recriwtio a chymorth mwy trefnus i Anogwyr Dysgu, a ddylai ategu hyfforddiant anogwyr, o ran egwyddor.

- Profodd statws cydnabyddedig i Anogwyr Dysgu i fod yn boblogaidd a dylai barhau.

- Mae'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd anogaeth yn galonogol, ond yn dameidiog ac anghyflawn.

Mae'r gwerthusiad felly'n pwysleisio bod angen mwy o dystiolaeth am effaith anogaeth yn seiliedig ar ddefnyddio mesurau llym cyn ac ar ôl ei rhoi, lle bo hynny'n briodol. Yn ystod blwyddyn gyntaf hyfforddi Anogwyr Dysgu, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwil

[8] **Holtom D a R Bowen (2007)** *Evaluation of the First Campus;* Cynllun Peilot Hyfforddi Anogwyr Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru Uned Pobl a Gwaith: Y Fenni

mwy eang i'r farchnad[9] ar gyfer y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19 yn ei chyfanrwydd, yn cynnwys elfen yr Anogwyr Dysgu. Ymchwilio i lefelau ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc eu hunain oedd y bwriad, ynghyd â'u rhieni a'u darparwyr. Roedd agweddau manteisiol yr Anogwr Dysgu yn amlwg, wrth i fwy nag thri chwarter yr ymatebwyr honni i'r effaith fod yn gadarnhaol. Roedd tair rhan o bump o'r darparwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig y cymorth y bydd Anogwyr Dysgu yn ei roi i bobl ifanc trwy gyflwyno'r amrediad o opsiynau sydd ar gael iddynt a'u hegluro, a dewis y dulliau dysgu gorau. Roedd disgwyliad hefyd ynglŷn ag effaith anogaeth yn y dyfodol ar bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o ran cynyddu eu hyder ynglŷn â dewis opsiynau (60 y cant o'r ymatebwyr) yn ogystal â gwelliannau cyffredinol mewn cyrhaeddiad academaidd a phresenoldeb (50 y cant o'r ymatebwyr).

> *The Learning Coach, who has the capacity to provide on-going support to young people in their decision making is widely welcomed by providers, and recognised as being able to make a significant contribution to a more effective system (GfK NOP 2007, tud 86)*

Serch hynny, dylid nodi bod problemau wedi codi ambell dro. Cyfeiriodd traean o'r ymatebwyr at brinder adnoddau, ymrwymiad amser gormodol ar gyfer hyfforddiant, anhawster wrth recriwtio staff addas, ansicrwydd ynglŷn â statws yr Anogwr Dysgu, a diffyg cynhwysedd o ystyried cymaint o waith sydd ei angen er mwyn gwneud cymorth anogwr yn hawl i holl bobl ifanc Cymru.

> *…questions remain about the feasibility of providing the number of coaches to deliver the level of support required, it is not merely a case of allocating responsibility to existing members of staff (GfK NOP 2007 tud 86)*

Datgelodd data'r arolwg hefyd fod dwy her ddifrifol yn wynebu cymorth dysgu yn y dyfodol. Yn gyntaf, dywedodd rhyw chwarter y bobl ifanc a'u rheini nad oedd ganddynt fawr o wybodaeth am y dewis o gymwysterau sydd ar gael. Yn ail, nid oedd traean o'r bobl ifanc yn gallu dyfynnu enghreifftiau o ddysgu a oedd yn helpu i ddatblygu

[9] **GfK NOP (2007)** *Learning options for 14-19 year olds in Wales;* Growth for Knowledge ac APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd – yn cynnwys arolygon o 1750 o bobl ifanc a rhieni ynghyd â 100 o ddarparwyr dysgu; dilynwyd gan grwpiau ffocws a chyfweliadau.

sgiliau rhai 14-19 oed y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn sylwadau pwysig ar gyfer gwaith Anogwyr Dysgu yn y dyfodol o ran helpu pobl ifanc i gynllunio eu llwybrau a gwneud mwy o synnwyr o'u gweithgareddau a'u cyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol.

3. Yr anogwyr

Cyfrannodd dau Anogwr Dysgu ar hugain at y dadansoddiad o'r astudiaethau achos. Fe'u dosbarthwyd yn dri grŵp:

- Anogwyr wedi'u lleoli mewn un ysgol uwchradd (cod S)
- Anogwyr yn gweithredu mewn un coleg addysg bellach (cod F)
- Anogwyr yn defnyddio amrywiaeth o leoliadau yn gysylltiedig â'r gwasanaeth ieuenctid a chymorth cyngor gyrfa (cod Y)

Datgelodd cyfweliadau'r astudiaethau achos themâu oedd yn ymdrin â phynciau megis profiadau pontio, rhesymau dros ymwneud yn gynnar, llwyth achosion, amgylcheddau anogaeth, gweithgareddau gyda dysgwyr, rheolaeth a rhwydweithio, dyheadau'r dyfodol, a materion arbennig. Cynigir dyfyniadau o'r astudiaeth lawn ar gyfer yr wyth categori hyn.

a) Pontio

Gall Anogwyr Dysgu arbenigo mewn cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt baratoi i symud rhwng yr ysgol, y coleg a'r gweithle. Mae empathi'n hollbwysig, ac felly mae'n bwysig nodi profiadau'r anogwyr o bontio ar ddiwedd eu haddysg orfodol eu hunain. Roedd y stori gonfensiynol a chlasurol – a nodwyd mewn pump o'r astudiaethau achos – yn cynnwys symud o'r pumed i'r chweched dosbarth, ac yna i'r brifysgol.

> *Ar ôl cael tri lefel A (graddau A, B a D) aeth i'r coleg a chael gradd BEd a mynd yn syth i addysgu (S)*

Mewn saith achos gwelwyd gwahanol fath o brofiad, yn seiliedig ar adael addysg ffurfiol yn llwyr yn 16 oed a dilyn trywydd galwedigaethol i gyflogaeth lawn-amser:

…pan adawodd y chweched isaf i weithio fel nani yn Llundain (S)

Gweithiodd fel glanhawr ffatri cyn cwblhau profion addasrwydd gyrfa a ddangosodd ddiddordeb cryf mewn peirianneg. Swydd fel prentis gyda'r Bwrdd Glo Cenedlaethol oedd y canlyniad. (Y)

Gadawodd yr ysgol gyda phum lefel O, cymhwysodd fel person trin gwallt a bu'n rhedeg ei siop ei hun cyn dechrau teulu. (Y)

Ar ôl gorffen ei harholiadau lefel A ni allai fforddio mynd i'r brifysgol, er ei bod yn awyddus i ymgeisio am radd BEd a mynd yn athrawes. Yn lle hynny aeth allan i weithio fel clerc cyflogau. (Y)

b) Rhesymau dros ymwneud yn gynnar

Holwyd pawb a gyfwelwyd ynglŷn â'u rhesymau dros fod eisiau ymgysylltu â phobl ifanc a darparu cymorth iddynt. Mewn rhai achosion roedd yna atyniad galwedigaethol cryf iawn o'r cychwyn cyntaf:

…mae'n diffinio ei huchelgais mewn ffordd glir iawn: "helpu cymaint o blant â phosibl i gyflawni eu nod mewn bywyd a bod yn hapus, oherwydd rwy'n gweithio gyda llawer o blant sy'n anhapus – dim ond er mwyn gwneud iddynt wenu". (S)

…mae'n nodi fod ei ddiddordeb mewn anogaeth "wastad wedi bod yno". (Y)

Mewn achosion eraill cyfeiriodd yr Anogwyr at y tebygrwydd i'w profiadau cynnar eu hunain a'r hyn a ddysgasant yn nes ymlaen fel rhieni ac wrth eu gwaith – a throsglwyddo profiad a gwybodaeth wedi hynny i weithio'n broffesiynol gyda phobl ifanc:

O ganlyniad yn rhannol i'w diddordeb yng ngyrfa ysgol ei merch ei hun, bu'n helpu mewn ysgol gynradd ar sail ddi-dâl a gwirfoddol, cyn cael swydd ran-amser yn cynorthwyo disgybl mewn ysgol uwchradd leol. (F)

Arweiniodd ei chefndir ei hun, a'i gwaith gwirfoddol, at sylweddoliad bod llawer o bobl ifanc yn gwneud y dewisiadau anghywir. Meddai, "gall pobl ifanc, waeth pa mor ddrwg/trist/rhyfedd neu bell o'r trywydd iawn ydynt, bob amser newid ac rwy'n meddwl fod gormod o sefydliadau addysgol eisiau targedau a llwyddiant ond yn mynd o'i chwmpas hi yn y ffordd anghywir, yn enwedig gyda phobl ifanc wrthryfelgar." (Y)

Gwelwyd hefyd fod pobl allweddol yn gweithredu fel porthgeidwaid yn eu sefydliadau. Roedd y ffigyrau pwysig hyn yn darparu adborth cadarnhaol, yn tynnu sylw'r anogwyr at faterion a chyfleoedd hyfforddi a hefyd yn trefnu bod adnoddau ar gael i gefnogi'r rôl a'r hyfforddiant.

Uwch reolwr yn Ieuenctid Cymru oedd y catalydd hollbwysig a gododd ymwybyddiaeth o'r math hwn o yrfa, a'r pennaeth oedd y porthgeidwaid allweddol a ddarparodd adnoddau a chyfeiriad i'r rhaglen hyfforddi… (S)

Sylweddolodd ffrind o'r gwasanaethau ieuenctid fod ganddi ddiddordeb cryf mewn gweithio gyda phobl ifanc, a gofynnodd iddi "wneud ychydig oriau" mewn canolfan hamdden. (Y)

c) Llwythi achosion anogwyr

Mae swm llwythi achosion a'r ffordd y cânt eu trefnu yn amrywio ar draws sectorau a sefydliadau unigol, ac mae'n dibynnu i raddau helaeth a yw anogwyr yn gweithredu ar eu pen eu hunain neu mewn timau. Mae anogaeth yn swydd amser llawn i rai, o'i gymharu ag eraill sy'n cyfuno cymorth o'r fath ag amrywiaeth o gyfrifoldebau eraill. Os oes gwaith tîm yn digwydd mewn ysgolion, yn nodweddiadol rhannwyd llwythi achosion yr anogwyr yn grwpiau blwyddyn penodol. Mewn dwy astudiaeth achos, er enghraifft, mae'r timau anogaeth yn targedu dysgwyr yn yr ysgol iau, yr ysgol ganol neu'r ysgol hŷn (gydag un

anogwr yn cael ei neilltuo ar gyfer grŵp oedran penodol). Y prif nod yw gwella canlyniadau gwael mewn arholiadau yn sgil tangyflawni, a gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio. Mae hyn yn cynnwys plant mewn angen, gofalwyr ifanc, plant sydd mewn gofal, myfyrwyr dawnus a thalentog, tangyflawnwyr, a disgyblion abl sydd â phroblemau ymddygiad. Cyfeiriodd yr anogwyr at y ffaith fod nifer cymharol fawr o'r dysgwyr sy'n rhan o'u llwythi achosion yn dod o ardaloedd lle ceir lefelau amddifadedd uchel iawn.

Mewn achosion eraill mae cymorth anogwyr yn cynnwys un unigolyn yn gweithio tuag at dargedau penodol iawn – er enghraifft, myfyrwyr blwyddyn 10 ac 11 sy'n debygol o gael graddau D-G, rhai sydd ar y ffin rhwng C a D, ac unigolion penodol sydd ag anawsterau emosiynol difrifol. Daw patrwm cryf i'r amlwg o ran yr angen i weithio gyda phobl ifanc nad oes ganddynt fawr ddim ffydd yn eu gallu a'u sgiliau academaidd:

> *…mae'n nodi ei bod yn ymddangos bod fawr ddim neu ddim hanes o lwyddiant addysgol yn nheuluoedd y dysgwyr, a phrin iawn yw'r uchelgais i wneud yn dda yn yr ysgol. Meddai: "Rwyf newydd weld un llanc ifanc a allai gael 13 TGAU, ond tri yw ei darged." (S)*

Roedd y llwythi achosion yn amrywio yn nhermau gweithgarwch grŵp o'i gymharu â chymorth unigol un i un mwy dwys. Roedd amrywiaeth o gymorth hefyd ar gyfer nifer llai o fyfyrwyr a dderbyniodd gymorth dwys ar sawl achlysur (yn ymestyn i fwy na deg ar hugain o sesiynau ar hyd y flwyddyn mewn dau achos) o'i gymharu â nifer fwy yn derbyn cymorth mewn cyfarfodydd unwaith yn unig. Mae'n amlwg y gall y berthynas anogaeth godi disgwyliadau dysgwyr, sy'n bwyta i mewn i'r amser a neilltuwyd i'r anogwyr ddelio â'u llwyth achosion. Dywedodd un a gyfwelwyd ei fod newydd gwblhau 42 o sesiynau dwys dros gyfnod o bedwar mis, y rhan fwyaf ohonynt yn sesiynau un i un, ac yntau ag amserlen swyddogol o un diwrnod yr wythnos - tanamcangyfrif sylweddol o ystyried y math o weithgarwch dwys yr oedd ei angen.

Daw'n amlwg fod y llwyth achosion yn gymhleth, yn enwedig i'r anogwyr hynny sy'n croesi ffiniau sefydliadol ac yn gweithio i amrywiaeth o fentrau a rhwydweithiau. O fewn cyd-destun y gwasanaeth ieuenctid a gyrfaoedd roedd llwyth achosion anogwyr yn cynnwys llawer iawn o waith aml-asiantaeth y tu ôl i'r llenni, yn ogystal â rheoli neu gydgysylltu timau o gydweithwyr sydd â dyletswyddau eraill.

> *Bellach mae'n arwain tîm o dri anogwr, dau ohonynt â sgiliau astudio arbenigol ac un â chefndir arbenigol mewn cwnsela. Mae'r llwyth achosion blynyddol yn cynnwys tua 30 o fyfyrwyr blwyddyn deg ac un ar ddeg sy'n treulio tri diwrnod yr wythnos mewn coleg addysg bellach, un diwrnod yn yr ysgol (yn datblygu sgiliau allweddol) ac un diwrnod mewn lleoliad profiad gwaith. (Y)*

d) Amgylcheddau anogaeth

Wrth gyfweld ar gyfer yr astudiaethau achos cofnodwyd manylion lleoliadau anogaeth a chynllun amgylcheddau gweithio. Roeddent yn amrywio o ddefnyddio mannau tawel a phreifat mewn ysgol neu goleg hyd at fod yng nghanol y sefydliad:

> *Mae hwn yn lle prysur ac mae myfyrwyr yn galw heibio bob amser y tu allan i amser gwersi. Yn ystod y dosbarthiadau cynhelir cyfarfodydd mwy cyfrinachol a drefnwyd ar sail 1:1 yn yr Ystafell Anogaeth. (S)*

Pwysleisiodd rhai anogwyr hefyd bwysigrwydd defnyddio mannau agored mewn sefydliad – fel canolfan adnoddau dysgu ac ystafell chweched dosbarth. Gall pawb weld y mannau hyn, sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaith ymysg myfyrwyr a staff fel ei gilydd:

> *…mae hefyd yn hoffi gweithio gyda myfyrwyr mewn ffreuturau a llyfrgelloedd ysgol lle "gallwch gael sgwrs breifat ond heb fod ar eich pen eich hun." (F)*

Mewn achosion lle nad oedd man wedi'i neilltuo ar gyfer anogaeth, dylid nodi bod ystafelloedd arbenigol ar wahân ar gael yn y sefydliad ym mhob achos, ar gyfer cymorth mwy cyfrinachol. Daw darlun gwahanol iawn i'r amlwg ar gyfer anogwyr sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ieuenctid a gyrfaoedd, sy'n defnyddio amrywiaeth o leoliadau ar draws ardal ddaearyddol:

Mae'r anogwyr hefyd yn defnyddio canolfannau ieuenctid cymunedol os yw hynny'n briodol ac yn aml mae'r math yma o drefniant yn golygu bod "cist fy nghar yn dod yn swyddfa i mi." (Y)

Yn y canolfannau ieuenctid ceir cyfleusterau arlwyo, labordai digidol, byrddau pŵl, a soffas – yn ogystal â swyddfa breifat ar gyfer sgyrsiau mwy cyfrinachol… mae gan y tîm offer cyfathrebu symudol, a gall storio a rhannu ffeiliau gan ddefnyddio systemau rhyngrwyd – nodwedd weinyddol bwysig pan fydd nifer o anogwyr, o bosibl, yn gweithio gyda'r un unigolion mewn amryw o leoliadau. (Y)

Mae'r holl leoliadau hyn yn dibynnu ar bartneriaeth aml-asiantaeth a rhannu cyfleusterau; anfantais trefniant o'r fath yw ei bod yn dod yn anodd iawn sefydlu canolfan adnoddau anogaeth ddatblygedig.

Cred yr anogwyr ei bod yn bwysig i'w hamgylcheddau sgiliau astudio fod yn anffurfiol ac yn gyfforddus gyda digon o olau dydd a lliw. Maent yn cyfeirio at ddeuoliaeth gorfod gwneud i fyfyrwyr ymlacio trwy sgwrsio, cerddoriaeth a gweithgareddau, a helpu dysgwyr eraill sydd eisiau astudio'n dawel heb neb yn tarfu arnynt, ar yr un pryd. Am y rhesymau hyn dylai'r anogaeth gael ei dosbarthu mewn nifer o leoliadau yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr. (S)

e) Gweithgareddau annog

Mae'r gweithgareddau annog a ddisgrifiwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn rhannu'n bum thema fras. Yn gyntaf, y cyfuniad o gymorth dysgu uniongyrchol a chefnogaeth weinyddol fanwl:

…yn cyfuno cymorth sgiliau astudio gyda gweinyddiaeth glir iawn yn seiliedig ar ddatblygiad a defnydd caeth o weithdrefnau a systemau a all ddangos yr effaith wedyn trwy welliant amlwg mewn perfformiad dysgu dros amser. (F)

Roedd gweithgareddau gweinyddol hefyd yn mynd â'r rhan fwyaf o amser anogaeth yr unigolion hynny sydd â chyfrifoldebau'n gysylltiedig â threfnu lleoliadau gwaith, yn cynnwys cynllunio canllawiau, paratoi cyfarwyddiaduron lleoliad gwaith a briffio dysgwyr ynglŷn â'r hyn sydd i'w ddisgwyl a pha wybodaeth y dylent ei chasglu wrth weithio gyda chyflogwr.

Mae'r ail thema yn ymwneud â chreu perthynas, lle mae'r anogwyr yn disgrifio eu dysgwyr fel pobl ifanc sydd angen cymorth emosiynol oherwydd eu bod yn ddi-hyder ac angen cyfeiriad. Prif egwyddor anogaeth yw datblygu cred am yr hyn y gellir ei gyflawni a dangos gwelliant ar bob cyfle, waeth pa mor fach y mae'n ymddangos. Mae'n anorfod fod y twf hwn mewn optimistiaeth ac uchelgais yn golygu ffurfio perthynas:

…dylid cael ffydd a pharch heb orfod mynegi hynny, gyda'r ddwy ochr yn teimlo llwyddiant a siom i'r un graddau am eich bod gyda'ch gilydd ar y daith. (F)

Dywed myfyrwyr fod "Mrs…yn saff", mae'n "gwneud pethau gwirion", "mae ganddi amser", ac mae'n "rhywun sy'n gwrando". Weithiau bydd yr anogwr yn ei disgrifio ei hun i bobl fel "y grit yn yr wystrysen sy'n cynhyrchu perlau." (S)

Mae'n anochel bod sgiliau astudio yn ymddangos fel trydedd elfen allweddol gweithgarwch anogaeth. Helpodd y dysgwyr eu hanogwr i sefydlu mannau cychwyn, gan gytuno ar gontractau dysgu, rhestru cyflawniadau dysgu heb fod yn ffurfiol a heb eu hachredu, a sefydlu nodau tymor byr a mwy hirdymor. Yn aml roedd cymorth cynnar gyda sgiliau astudio yn ymwneud â rheoli amser, cytuno ar dargedau,

datblygu sgiliau, a dangos technegau dysgu. Roedd hyn yn cynnwys rhestrau parod o arddulliau dysgu, ynghyd â chynllunio deunyddiau gwreiddiol:

> *Mae wedi dyfeisio ymarferion dysgu gwreiddiol i fyfyrwyr (yn enwedig trwy ddefnyddio graffeg weledol a thasgau tynnu llun). Mae enghreifftiau yn cynnwys Cerrig Camu (lle bydd myfyrwyr yn tynnu diagramau neu luniau yn dangos adegau hollbwysig yn eu bywydau), a gêm sortio cardiau i dorri'r garw, lle caiff ansoddeiriau eu grwpio mewn tri phentwr wedi'u labelu "dyma fi", "dyma fi weithiau" a "nid dyma fi". Y canlyniad yw rhestr o ddisgrifiadau o'r unigolyn hwnnw sy'n helpu i lywio pennu targedau; gellir dychwelyd at y rhestrau hyn a'u diwygio mewn sesiynau anogaeth yn y dyfodol cyn mynd ymlaen i ysgrifennu datganiadau personol i'w defnyddio gyda cheisiadau am swydd neu geisiadau prifysgol yn y dyfodol. (F)*

Pedwaredd thema allweddol ar gyfer anogaeth yw helpu dysgwyr i nodi a defnyddio dewislenni opsiynau ar wahanol adegau yn eu hastudiaethau, gan arwain at gynllunio llwybr. Yn nodweddiadol byddai'r anogwr yn trafod eu hoff bynciau â dysgwyr unigol, ac yn archwilio'r rhesymau pam eu bod yn mwynhau dysgu yn y cyd-destun hwnnw. Ar y llaw arall roedd y gwasanaethau ieuenctid yn pryderu mwy am y canfyddiadau afrealistig a thymor byr o gyflogaeth a gyrfaoedd sydd gan lawer o bobl ifanc pan fyddant y tu allan i'r system addysg ffurfiol:

> *Mae'r anogwyr yn dweud "rydym yn meddwl fod llu o bobl ifanc allan yna heb unrhyw syniad am hyfforddiant na'r hyn y mae cyflogwyr ei eisiau. Maen nhw'n dweud "Rydw i eisiau bod yn blastrwr ond does dim angen i mi gael cymwysterau na hyfforddiant. Fe gaf waith fel plastrwr a dyna ni."(F)*

Y pumed thema a'r un olaf yw'r cyfrifoldeb sylweddol am reolaeth sydd gan Anogwyr Dysgu sy'n arwain tîm o gydweithwyr er mwyn gwasgaru'r dyletswyddau anogaeth ymysg grŵp mwy o arbenigwyr:

…mae hefyd yn rheoli deg anogwr arall…, ac mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys eu helpu gydag unrhyw anawsterau, cynllunio a monitro dulliau cyflwyno, a chynnal sesiynau cymorth gyda hwy ar bynciau megis gwaith grŵp, a sgiliau astudio. (Y)

Mae'r anogwyr – yn enwedig y rhai hynny yn y gwasanaethau ieuenctid a gyrfaoedd – hefyd yn rhwydweithio'n helaeth trwy groesi llu o ffiniau sector a sefydliadol wrth gyflawni eu gwaith:

Mae'r anogwyr hefyd yn tywys dysgwyr i'r amgylchedd gwaith ac yn gweithredu fel cyfryngwr gyda chyflogwyr, ac mae hyn yn cynnwys helpu i drefnu'r lleoliadau profiad gwaith. (Y)

Yna mae'r tîm anogwyr yn cyfarfod gydag amrywiaeth o athrawon yn yr ysgolion yn dilyn y rhaglen sefydlu er mwyn trafod cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf i bob myfyriwr unigol. (Y)

Roedd un agwedd allweddol ar reolaeth yn absennol o'r rhan fwyaf o'r astudiaethau achos, fodd bynnag, sef gwerthuso. Nid oedd yn ymddangos bod gan y rhan fwyaf o'r Anogwyr Dysgu brawf a thystiolaeth fanwl ynglŷn ag effaith eu cymorth ar ddysgwyr.

f) Nodweddion trefniadaeth a rheolaeth

Mae'r astudiaethau achos o ysgolion a cholegau yn adlewyrchu esblygiad cymorth dysgu o systemau a chyfrifoldebau bugeiliol mwy sefydledig[10]. Mae darlun llawer mwy cymhleth yn ymddangos pan ddaw'n fater o drefnu anogaeth yng nghyd-destun gwasanaethau ieuenctid a gyrfaoedd, o'i gymharu â symlrwydd cymharol datblygu anogaeth o fewn sefydliad unigol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod yn rhaid i wasanaethau ieuenctid a gyrfaoedd yn aml weithio ar lefel ardal a rhanbarth, gan rwydweithio ag amrywiaeth eang o fudiadau a sefydliadau. Mae hefyd yn cynnwys gwaith tîm aml-asiantaeth trwy gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau cymorth i bobl ifanc sy'n gwerthfawrogi perthynas mwy hyblyg ac anffurfiol a llai sefydliadol gyda gweithwyr cymorth. Ar ben hynny, efallai nad oes un man ffisegol ar gyfer anogaeth. Yn hytrach, gall gael ei drefnu o gwmpas adnoddau

[10] Ceir manylion pellach mewn dwy astudiaeth achos estynedig yn yr adroddiad llawn: ar gyfer Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant, ac Ysgol St Cyres.

sydd eisoes yn bodoli mewn nifer o sefydliadau, gan ddibynnu ar gyfathrebu a chytundebau clir gydag asiantaethau a phroffesiynau eraill.

O ganlyniad, yn yr astudiaethau achos o'r gwasanaethau ieuenctid mae'r anogwyr yn neilltuo cyfran o'u hamser i weithgarwch anogaeth uniongyrchol, ond mae ganddynt hefyd nifer o gyfrifoldebau eraill sy'n gysylltiedig â chymorth ieuenctid mwy cyffredinol. Ar yr un pryd mae'r gwasanaethau ieuenctid yn bryderus ynglŷn â phwyslais y Llwybrau Dysgu 14-19 ar raglenni cymorth sy'n gweithredu mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn llwyr. Yr hyn sy'n eu hatgoffa yw bod llawer o rai 16-19 oed wedi gadael addysg ffurfiol, ac mae'r anogwyr yn pwysleisio:

"nid ydym yn gwrthwynebu ysgolion, ond mae yna fwy iddi na hyn." (Y)

g) Materion arbennig

Wrth gyfweld ar gyfer yr astudiaethau achos trafododd rhai o'r anogwyr faterion oedd yn ymddangos yn arbennig o anodd eu datrys. Roedd amddiffyn plant yn bryder mawr ynghyd â'r posibilrwydd o gyhuddiadau ffug o gamdriniaeth. Felly roeddent yn cynllunio'r amgylchedd anogaeth ac yn trefnu'r cymorth mewn ffyrdd a oedd yn caniatáu cyfrinachedd a phreifatrwydd mewn cyfarfodydd un i un, ond yn sicrhau ar yr un pryd bod pobl eraill gerllaw a bod pawb yn gallu gweld yr hyn oedd yn digwydd.

Daeth mater arall cysylltiedig i'r amlwg pryd bynnag y dywedwyd bod cyfrinachedd yn rheol euraid ar gyfer trafodaethau anogaeth. Roedd hyn yn seiliedig ar ddatgelu pethau yn ystod trafodaethau yr oedd yn hanfodol bod awdurdodau eraill yn mynd ar eu trywydd:

Mae un digwyddiad yn arbennig wedi tynnu sylw at yr angen i rybuddio pawb am bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer hysbysu myfyrwyr, rhieni ac athrawon cyn i'r anogaeth ddechrau. Mae'n hawdd iawn i'r anogwr ddweud fod popeth yn gyfrinachol ar ddechrau'r drafodaeth, ac yn anodd iawn iddo wedyn dorri'r

addewid hwnnw pe byddai rhywbeth brawychus yn cael ei ddatgelu, a mater na ellir ei anwybyddu. Diffyg ffydd yw'r canlyniad – a gall hyn ledaenu'n hawdd iawn i weddill y grŵp cyfoedion. (S)

Mewn achosion eraill nododd yr anogwyr eu bod yn aml yn cael cyfarfodydd gydag aelodau'r teulu, ac ambell dro gall y rhain fod yn chwithig. Dywedodd rhai a gyfwelwyd fod trafodaethau gyda rhieni yn datblygu'n danbaid iawn weithiau a bu rhai achosion o ymosod.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfathrebu clir gyda chydweithwyr, a'r angen i dynnu sylw at swyddogaeth newydd o fewn sefydliad, fel gweithgarwch craidd. Roedd hyn yn gysylltiedig yn arbennig â'r angen i egluro disgwyliadau ynglŷn â'r hyn y mae anogaeth yn ei olygu, statws yr anogwr dan hyfforddiant, a phwy sy'n gwneud beth:

Yn achos y rhaglen hyfforddi, mae'n nodi y dylid ei chwblhau'n llwyddiannus cyn datgan i'r byd mawr eich bod "yn Anogwr Dysgu." (S)

Ar lefel fwy eithafol, dywed dau anogwr sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau ieuenctid a gyrfaoedd, sy'n ymweld ag ysgolion i ddarparu cymorth dysgu:

Agwedd arall ar anogaeth sydd angen ei hystyried yn ofalus yw delio â'r hyn sy'n ymddangos fel agwedd ymosodol gan rai o'r athrawon proffesiynol tuag at rôl yr anogwr. Dywed yr anogwyr, "yn syml, nid yw rhai athrawon yn ein hoffi."(Y)

Cyfeiriodd y rhain at ddau esboniad posibl yn eu cyfweliadau. Yn gyntaf, gall Anogwr Dysgu gael ei weld weithiau fel rhywun sy'n cadarnhau beirniadaeth anffafriol o ysgol trwy weithio gyda myfyrwyr sydd wedi'u gwahardd neu fynd ar drywydd argymhellion arolygiadau Estyn ar gyfer mesurau arbennig. Mae'r canfyddiad hwn yn arbennig o berthnasol i anogwyr sydd â swyddogaeth ranbarthol neu awdurdod lleol yn hytrach na chysylltiad penodol ag ysgol neu goleg unigol. Yn ail, gall yr Anogwr Dysgu fygwth yr arferion sefydledig a thraddodiadol

y bydd athrawon yn eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, y mae disgyblaeth wedi bod yn brif flaenoriaeth iddynt, yn hytrach na hyrwyddo dulliau ac arddulliau dysgu a sgiliau astudio amrywiol iawn. Pwysleisiodd yr anogwyr hefyd nad yw hwn yn sylw cyffredinol am y proffesiwn addysgu, yn hytrach, maent yn amau ei fod yn wir am leiafrif bach iawn o athrawon sy'n dueddol o feirniadu unrhyw fentrau newydd.

h) Dyheadau

Yr ystyriaeth olaf wrth gyfweld ar gyfer yr astudiaethau achos oedd nodi gobeithion ac uchelgais yr anogwyr ar gyfer eu llwybr gyrfa eu hunain yn y dyfodol. Roedd yr adborth yn unfryd: roeddent i gyd am barhau â rhyw fath o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

> *Yn y pen draw hoffai astudio ar gyfer gradd mewn Anogaeth – os bydd un ar gael. (Y)*

> *Byddai'r anogwr yn croesawu llwybr proffesiynol a gydnabyddir yn ffurfiol, ac mae'n awgrymu y dylid cael graddfa gyflog dryloyw gyffredinol sy'n gwobrwyo sgiliau ac arbenigedd datblygiedig y bobl hynny sy'n gweithio ochr yn ochr ag athrawon a chynghorwyr gyrfa: anogwyr, cynorthwywyr addysgu a chwnselwyr ieuenctid. (S)*

Yn y cyfweliadau cyfeiriodd tri arall at eu diddordeb mewn helpu cydweithwyr eraill i ymgysylltu ag anogaeth, yn cynnwys y posibilrwydd o fentora neu hyfforddi anogwyr sy'n ymuno â'r rhaglen hyfforddi achrededig yn y dyfodol.

4. Y dysgwyr

Mae'r astudiaethau a'r brasluniau achos o ddysgwyr yn creu darlun o Anogwyr Dysgu yn darparu cymorth ar sawl ffurf i bobl ifanc. Ceir tystiolaeth o ymyrraeth strategol a phenodol ar gyfer poblogaethau arbennig, yn ogystal â chymorth mwy cyffredinol sydd ar gael i bawb sy'n galw heibio. Prif themâu'r categorïau bras o anogaeth yw

tangyflawni, anghenion dysgu penodol, anawsterau disgyblaeth, problemau gyda chyfoedion, triwantiaeth mewnol ac allanol, a dal i fyny â dosbarthiadau a gollwyd a gwaith cwrs. Un thema llai amlwg yw darparu cymorth i'r dysgwyr hynny nad ydynt o bosibl yn derbyn sylw er eu bod yng nghategori dysgwyr mwy galluog a dawnus.

Mae gweithgareddau anogaeth mewn ysgolion a cholegau yn gysylltiedig â chymorth ymarferol gyda sgiliau astudio, archwilio hoff ddulliau o ddysgu, cefnogi lles emosiynol, a hwyluso dewis o opsiynau yn gysylltiedig â chynllunio llwybrau. Ymddengys bod y deipoleg weledol-clywol-cinesthetig yn boblogaidd ymysg dysgwyr er y gall fod perygl i gategoreiddio'r dull dysgu yn y fath fodd gael ei gymryd yn rhy llythrennol ac anfeirniadol weithiau. Mae anogwyr yn dangos cydbwysedd yn y cymorth a roddant o ran cynnig "cynghorion ac awgrymiadau" ymarferol iawn a mynd ati ar yr un pryd i rymuso pobl ifanc yn yr hirdymor trwy gynyddu eu hyder a'u mewnwelediad i ddysgu.

Mae anogwyr yn cefnogi dysgwyr sydd fel arall yn llithro drwy'r rhwyd unwaith y maent yn gadael coleg neu ysgol benodol. Mae hyn yn cynnwys ymweld â'r cartref neu'r gweithle, helpu myfyrwyr sydd wedi'u gwahardd, neu gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd wedi'u caethiwo mewn swydd sy'n gwneud iddynt deimlo'n rhwystredig.

Roedd y cyfweliadau ar gyfer yr astudiaethau achos yn cynnwys cais am wybodaeth am achosion arbennig lle mae'r Anogwr Dysgu o'r farn ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i ddysgwyr unigol. Cyfres o 41 disgrifiad oedd y canlyniad, wedi'i rhannu'n "achosion" manylach (unwaith eto â'r label Y, C neu I – yn dibynnu a yw'n gyd-destun ysgol, coleg neu ganolfan ieuenctid) a "brasluniau" byrrach yn disgrifio cymorth i ddysgwyr (y rhoddwyd enwau ffug iddynt).

Thema 1: anawsterau dysgu penodol

…mae'n dioddef o Syndrom Asperger ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD). Mae ei lefelau cyrhaeddiad ar gyfer blwyddyn 10 yn isel a rhagwelir graddau TGAU yn y band E-G iddo ym mhob pwnc. Mae ganddo hanes o chwarae triwant a barodd iddo bron iawn gael ei wahardd yn barhaol o'i ysgol flaenorol. Cytunwyd y byddai'r anogwr yn rhoi 10 awr o gymorth dwys yr wythnos iddo yn dilyn datganiad in lieu gan y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr. (S)

Mae'r anogwr yn rhoi disgrifiad byr o "Andrew" fel un sydd â math gwahanol o ddeallusrwydd a all achosi anawsterau i unrhyw sefydliad neu grŵp cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'n ymateb yn wael iawn pan fydd pobl yn siarad ag ef yn y ffordd anghywir, sy'n golygu'n aml ei fod yn anwybyddu'r athrawon yn llwyr ac yn cilio o sefyllfaoedd am gyfnodau hir os oedd yn synhwyro fod pobl yn ddig, neu'n siarad i lawr ag ef. (S)

Sylwodd yr anogwr mai un o'i phrif bryderon oedd cymryd nodiadau yn y dosbarth - roedd yn cael trafferth dal i fyny. Cyn i'r anogwr ymyrryd ni fu unrhyw ymgais i ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol. Roedd yn amau mai'r broblem sylfaenol oedd dyslecsia ysgafn, a gwelodd na wnaed unrhyw asesiadau hyd yn hyn. Cyfeiriodd yr anogwr hi at ganolfan ddyslecsia'r ysgol ac aeth gyda hi ar ei hymweliad cyntaf. (S)

…myfyriwr sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl, bwlio ac ADHD. Symudodd o'r ysgol uwchradd i uned arbenigol leol ynghlwm wrth y coleg, ac yn ystod y cyfnod hwn rhoddodd y gorau i gymryd Ritalin fel meddyginiaeth. Roedd ei hanes o anawsterau dysgu a'i ddatganiad anghenion arbennig yn golygu bod ganddo hawl i sesiynau cymorth tiwtorial ychwanegol a threfnwyd cyfweliad gyda'r Anogwr Dysgu yn ogystal ag arbenigwyr eraill. (F)

Dylid nodi bod y categori 'anawsterau dysgu penodol' yn peri problem i rai o aelodau'r gwasanaeth ieuenctid a gyfwelwyd. Roeddent yn pwysleisio eu bod yn amharod i labelu dysgwyr mewn sefydliadau. Mae'r Anogwyr Dysgu hyn yn ein hatgoffa fod gan ganolfannau ieuenctid y fantais o ddarparu lleoliad mwy anffurfiol fel dewis amgen i gymorth addysgol gonfensiynol – ac felly mae hyn yn arwain at gam oddi wrth ddefnyddio labeli neu deitlau diagnostig ffurfiol.

Thema 2: dal i fyny

Roedd yn amlwg hefyd fod anogwyr yn rhoi cymorth i ddysgwyr sydd wedi methu llawer iawn o gyswllt gydag athrawon yn yr ystafell ddosbarth.

> *…mae'n darparu darlun pellach yn seiliedig ar absenoldeb maith o'r ysgol. Disgybl ym mlwyddyn 11 yw hi a ddisgrifir fel dysgwr disglair, bywiog, 'allblyg' a hyderus sy'n tanberfformio. Mae'n byw gyda'i thad ar ôl i'w rhieni wahanu'n ddiweddar. Cyfeiriwyd achos S at yr anogwr am gymorth i orffen ei gwaith TGAU a oedd yn hwyr gan iddi fethu llawer o ysgol oherwydd salwch, yn cynnwys cyfnod yn yr ysbyty. Gofynnodd ei hathro i'r anogwr ei helpu gydag aseiniad am gadwyn genedlaethol o archfarchnadoedd sydd â changhennau yn yr ardal. Roedd angen i achos S gyflwyno dadl gytbwys o blaid ac yn erbyn effaith y siop hon ar y gymuned leol a dod i gasgliad trwy fynegi ei barn. Roedd hyn yn anodd iddi, gan ei bod wedi methu cymaint o wersi. Dangosodd yr anogwr iddi sut i ysgrifennu cynllun traethawd gan ddefnyddio pwyntiau bwled yn crynhoi gwahanol safbwyntiau, fel y gallai gyflwyno dadl gytbwys. Ar ôl iddi orffen y dasg hon eglurodd yr anogwr wrthi fod angen iddi ysgrifennu casgliad a gwneud ei 'safbwynt' yn eglur. (S)*

> *…Mae ym mlwyddyn 12 gyda dau frawd iau ym mlynyddoedd 9 ac 11. Maen nhw i gyd yn byw gyda'u tad ar ôl i'w briodas chwalu. Mae gan ei mam hanes o anawsterau iechyd meddwl, ac mae gan ei thad broblemau iechyd corfforol difrifol iawn*

oherwydd bod arno angen dialysis dwys, yn arwain at drawsblaniad a oedd ond yn llwyddiant rhannol. Fe'i diffinnir felly fel gofalwr ifanc, sy'n derbyn cymorth gan y Swyddog Lles Addysg. Caiff ei hystyried yn fyfyriwr canolig sy'n cael trafferth i ymdopi, ond sy'n gydwybodol iawn a llawn cymhelliant ac yn sicrhau canlyniadau trwy weithio'n galed. Mae wedi methu â chyflwyno gwaith cwrs mewn pryd oherwydd ei chyfrifoldebau gofalu diweddar, yn ogystal â methu rhai o'i dosbarthiadau. Mae'r ysgol wedi darparu gwasanaeth cwnsela, ond er gwaethaf ei pherthynas dda ag aelodau staff perthnasol mae arni angen mwy o help uniongyrchol gyda sgiliau astudio. (S)

…myfyriwr 15 oed sy'n cael problemau iechyd ysbeidiol oherwydd alergedd bwyd difrifol. Roedd yn cyflawni graddau D ar lefel TGAU ond yn y gorffennol roedd yr ysgol wedi rhagweld y byddai'n cyflawni graddau B. Mae'r dysgwr hwn yn nerfus iawn ynglŷn â mynychu'r ysgol ac aeth trwy gyfnod o lewygu wrth y giât bob bore oherwydd pryder. Dechreuodd yr ysgol raglen o gymorth yn dilyn cyfweliad rhwng achos Y a'r pennaeth blwyddyn, a sbardunwyd oherwydd iddi beidio â chyflwyno gwaith cwrs. Arweiniodd hyn at ei chyfeirio at Anogwr Dysgu a oedd yn gysylltiedig â Gyrfa Cymru, gan ddefnyddio amrywiaeth o ganolfannau ieuenctid. Yn y sesiynau cychwynnol fe'i hyfforddwyd i ymlacio, delweddu'n bositif a thrafodwyd ei phroblemau iechyd a'i pherthynas â'i ffrindiau. (Y)

Theme 3: amharu

Roedd disgrifiadau deg o'r Anogwyr Dysgu o ddysgwyr yn cynnwys cyfeiriadau at anawsterau disgyblaeth, yn cynnwys:

…myfyriwr blwyddyn 12 a ddaeth i'r ysgol pan oedd yn 15 oed ar ôl i'w rheini symud i Gymru o wlad dramor. Enillodd 10 TGAU (y rhan fwyaf yn raddau A a B) ac mae'n astudio ar gyfer pedwar lefel A yn awr. Rhagwelir y bydd yn cael tair gradd C a gradd D.

Cyfeiriodd pennaeth y chweched dosbarth a'i hathro dosbarth hi at yr anogwr am ei bod yn colli gwersi, am fod ganddi "agwedd negyddol", a'i bod yn "gadael i'w meddwl grwydro ac yn edrych drwy'r ffenestr drwy'r amser" pan oedd yn y dosbarth. (S)

Mae "Anna" ym mlwyddyn 10 ac yn rhan o grŵp o fyfyrwyr y cred eu hathrawon eu bod yn ddigywilydd a bod eu hagwedd yn negyddol iawn tuag at awdurdod. Un anhawster arbennig yw ei bod yn "siaradus" yn y dosbarth, ac yn cymryd llawer o amser i setlo ym mhob gwers - gan achosi llawer o rwystredigaeth i'w hathrawon a llawer o'r myfyrwyr eraill o'i chwmpas. (S)

Mae enghreifftiau eraill yn ymwneud ag anogaeth sy'n dilyn trywydd dysgwyr a all ddychwelyd i ymddwyn yn drafferthus fel yr arferent:

Mae ef ym mlwyddyn 11 ac fe'i disgrifir fel bachgen tawel sydd ar wahân i eraill yn yr ysgol, ond nid yn amhoblogaidd. Daeth triwantiaeth mewnol yn broblem yn ddiweddar, a dim ond y gwersi yr oedd yn eu mwynhau yr oedd yn eu mynychu. Roedd ei berthynas â'i athro dosbarth wedi dirywio, gan y byddai'n colli cyfnodau cofrestru, ond yna'n mynd i'w ail wers. Roedd ei berfformiad blaenorol yn awgrymu ei fod yn berfformiwr gradd A a B, ond pan edrychodd y pennaeth cynorthwyol ar ei waith pan oedd wedi'i gadw i mewn sylweddolodd ei fod yn fwy tebygol o gael graddau C a D. Dyna pryd yr aeth ag ef at yr anogwr ei hun. (S)

Mae anawsterau disgyblu yn parhau mewn addysg bellach yn hytrach na bod wedi'u cyfyngu i'r cyfnod ysgol gorfodol. Myfyriwr 18 oed yw achos F, ac mae ei rieni yn droseddwyr ac yn defnyddio cyffuriau. Cofrestrodd ar raglen alwedigaethol lefel 3 yn y coleg ond roedd yn parhau i ymateb yn ymosodol i bobl mewn awdurdod. Ar ôl gorffen y flwyddyn gyntaf gwrthododd ei diwtor cwrs iddo fynd ymlaen i'w ail flwyddyn oherwydd pyliau o ddicter a oedd yn fygythiol iawn i'w gyd-fyfyrwyr a staff y coleg. Cyfeiriodd rheolwr cwricwlwm y coleg ef at yr Anogwr Dysgu, ac yn yr ychydig gyfarfodydd cyntaf, trafodwyd cyfres o

opsiynau, yn amrywio o adael y coleg a bod yn ddi-waith, cael gwaith di-grefft fel labrwr, ceisio mynd yn grefftwr, neu newid ei astudiaethau a cheisio dal ati er mwyn ennill rhyw fath o gymhwyster. Mynychodd dros naw sesiwn anogaeth gan wneud cyfres o weithgareddau a ddatgelodd y rhesymau dros ei deimladau gwaelodol o ddiffyg ffydd a dicter gydag oedolion mewn awdurdod, yn ogystal â'i awydd sylfaenol i aros yn y coleg a chael cymhwyster. (F)

Mae math gwahanol o esiampl yn seiliedig ar achos o gyfeirio difrifol at awdurdodau eraill. Mae'r Anogwr Dysgu'n disgrifio ei gwaith gyda'r dysgwr hwn fel:

…fy sialens fwyaf hyd yn hyn. Cyfeiriwyd hi am anogaeth gan ei thiwtor a oedd yn poeni am ei hagwedd a'i chymhelliant, ac yn gynnar yn y cyfarfodydd anogaeth datgelodd iddi gael ei cham-drin yn rhywiol. Blaenoriaeth gyntaf yr anogwr oedd trafod beth fyddai'n digwydd o ganlyniad i'r hyn a ddatgelodd a'r camau a gâi eu cymryd yn awr. Yn dilyn hynny mynychodd yr anogwr gyfweliad gyda'r heddlu cyn cynnal trafodaethau pellach â hi a wnaed yn bosibl trwy greu perthynas o ffydd yn ogystal â threfnu ei bod yn derbyn cefnogaeth arbenigol gan gwnselydd. (F)

Mae canolfannau ieuenctid hefyd yn cynnig cyfleoedd i weithio gyda phobl ifanc sydd â hanes o amharu ar eraill mewn ysgolion uwchradd, gan roi cyfle iddynt ddechrau â llechen lân gyda gwahanol fathau o weithwyr cymorth proffesiynol.

Mae achos Y yn ymwneud â grŵp o bedwar ffrind 16 oed a oedd i gyd yn mynychu'r un ysgol uwchradd. Mae anhwylderau dysgu ar ddau a disgrifiwyd pob un ohonynt fel rhai sydd â chyflawniad isel iawn y byddent, mwy na thebyg, yn gadael yr ysgol heb unrhyw beth. Mae gan y grŵp hanes o dramgwyddo dro ar ôl tro yn yr ysgol, yn cynnwys trais a niwed i eiddo. Arweiniodd hyn at gyfres o waharddiadau tymor sefydlog, ac ar yr un pryd aeth un unigolyn hefyd i drafferthion gyda'r heddlu a gang o droseddwyr

ar ôl iddo ddwyn cyffuriau gan werthwr. Bellach mae tri o'r bechgyn wedi'u gwahardd o'r ysgol yn barhaol oherwydd eu hagwedd ymosodol, am aflonyddu ac mewn rhai achosion, am gymryd cyffuriau. Cyfeiriwyd y grŵp at anogwr am gymorth gan Ddirprwy Bennaeth, cyn iddynt gael eu gwahardd. Wedi hynny daeth tîm anogaeth Gyrfa Cymru i drefniant gyda'r ysgol oedd yn golygu y câi'r dysgwyr fynychu rhai sesiynau adolygu gwaith cwrs addysg gorfforol arbennig a sefyll eu harholiadau. Fel arall roedd yn rhaid i'r Anogwyr Dysgu eu hebrwng i mewn ac allan o'r ysgol. Trefnwyd cyfarfod gyda'r bechgyn mewn canolfan ieuenctid y tu allan i'r ysgol a lluniwyd contract yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r ddwy ochr, diffiniadau o ymddygiad derbyniol ac annerbyniol, a thargedau. Gan fod eu hymddygiad drwg yn gwaethygu pan oeddent yng nghwmni ei gilydd, gweithiodd y sesiynau anogaeth gydag unigolion yn hytrach na'r grŵp. Ar ben hynny, roedd yr hanes o drais a gwrthdaro yn golygu bod yn rhaid i Anogwr Dysgu arall fod gerllaw yn ystod unrhyw gyfarfod. (Y)

Mae'r enghraifft olaf yn ymdrin â merch feichiog yn ei harddegau. Dywed yr Anogwr Dysgu:

…roedd tair cenhedlaeth o'i theulu yn famau ifanc, ac mae hi ei hun yn 14 oed a chanddi fabi 10 mis oed. Nid oedd wedi mynychu'r ysgol ers iddi fod yn 12 oed, ac ar ôl ymweliadau gan y Swyddog Lles Addysg bu bron iawn i'w mam orfod talu dirwy drom am nad oedd ei merch yn mynychu'r ysgol. Gan nad oedd ganddi unrhyw arian gallai hyn fod wedi golygu dedfryd o garchar – pwysleisia'r anogwr y byddai hyn wedi tarfu'n fwy fyth ar fywyd y teulu. Roedd ymgais i ddarparu addysg yn y cartref i achos Y yn aflwyddiannus gan fod cartref anhrefnus a phrysur iawn yn golygu bod sesiynau astudio preifat neu estynedig yn amhosibl. Yna fe'i cyfeiriwyd hi at anogwr am gymorth drwy brosiect Mamau Ifanc yr awdurdod lleol. (Y)

Thema 4: cymorth sgiliau astudio

Roedd cymorth manwl gyda sgiliau astudio'n thema amlwg yn y rhan fwyaf o'r cyfweliadau, er bod y rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio bod hyn yn ymddangos yn raddol wrth i'r berthynas ddatblygu rhwng yr anogwr a'r dysgwr. Dylid nodi hefyd y gellid dangos pa mor effeithiol oedd yr anogaeth trwy roi cymorth ymarferol iawn i fyfyrwyr a oedd yn galw i mewn oherwydd eu bod yn wynebu argyfwng gyda'u gwaith cwrs, fel y dengys yr enghreifftiau hyn:

Mae "Ben" ym mlwyddyn 10 ac nid yw'n gwneud unrhyw waith cartref. Ar hyn o bryd mae'n perfformio i radd D ond rhagwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn y byddai'n cyrraedd gradd C. Er y byddai'n nodi tasgau a dyddiadau gwaith cwrs yn ei lyfr cynllunio, ni fyddai'n edrych arno unwaith iddo fynd adref o'r ysgol. Nododd yr anogwr fod ganddo lawer o gymhelliant a brwdfrydedd pryd bynnag y byddai'n siarad am ei astudiaethau; ond roedd yn ymddangos bod diddordebau eraill yn mynd â'i fryd a'i fod yn anghofio'i flaenoriaethau. (S)

Daeth "Delyth" i'r ystafell anogaeth cyn un o'i harholiadau gyda ffeiliau o nodiadau a oedd mewn anhrefn llwyr – ni allai weld y cysylltiadau rhwng gwahanol rannau'r cwrs, na gweld sut yr oedd y nodiadau a'r wybodaeth waelodol yn dilyn unrhyw fath o drefn na naratif. (S)

Datgelodd "Evelyn" ei diffyg hyder pan ddaw'n amser adolygu ei nodiadau niferus o'i gwersi. Dywedodd ei bod yn boddi mewn geiriau ac na allai gofio unrhyw beth. (S)

Gadawodd S yr ysgol tua dechrau ail dymor blwyddyn 11 a mynd i weithio i gwmni gosod lloriau. Cadwodd yr anogwr gysylltiad ag ef ac un bore daeth i'r ysgol i ddweud fod rheolwr y siop wedi cynnig swydd barhaol a phrentisiaeth iddo ar yr amod bod yr ysgol yn hapus â'r trefniant hwn. Cymerodd yr ysgol a'r dirprwy bennaeth fantais lawn ar y cynnig hwn trwy drefnu cyfarfod

gydag S a'i rieni er mwyn ceisio ei annog i wneud ei arholiadau TGAU fel bod ganddo rywfaint o gymwysterau tu cefn iddo. Cytunwyd y byddai'r anogwr yn ei gefnogi trwy ymweld yn wythnosol â'i weithle, lle cafodd anogaeth gan staff y siop hefyd. (S)

Mae sgiliau cyfuno arweinyddiaeth ieuenctid a chymorth dysgu i'w gweld mewn achos o'r sector gwirfoddol:

…y Gymraeg yw ei hiaith gyntaf ac mae cefndir ei theulu ym maes addysg. Hoffai ei rhieni a'i mam-gu a'i thad-cu iddi barhau â'r traddodiad hwn, er nad yw hi ei hun wedi penderfynu rhwng gwaith ieuenctid, addysgu neu barafeddygaeth. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Anogwr Dysgu penderfynodd fynd i'r brifysgol i astudio ar gyfer gradd sy'n gysylltiedig ag Addysg fel strategaeth ddiogel wrth iddi ystyried ei hopsiynau o ran gyrfa. Mae achos Y hefyd yn gwirfoddoli mewn mudiad Cymraeg lleol, gan weithio gyda phobl o bob oed i'w helpu i ddysgu'r iaith. Dyma ddisgrifiad ei hanogwr ohoni:

> *tawel iawn, swil iawn, gyda llawer o sgiliau – mae'n drefnus, yn dda am greu perthynas gyda phobl ifanc, gall ddweud pan fydd rhywun yn gofidio a'i hwyliau wedi newid ac mae bob amser yn awyddus i helpu." (Y)*

Thema 5: cynllunio llwybrau

Mae thema cynllunio llwybr yn cynnwys cymorth i adnabod a dewis opsiynau ar adegau o drobwynt ym mywydau'r dysgwyr. Mae enghraifft brin o anogaeth grŵp yn rhoi mwy o fanylion:

Bu'r anogwr yn gweithio gyda dau fyfyriwr o flwyddyn 11 "sy'n ffrindiau gorau", ac y mae cefndir eu teuluoedd yn debyg iawn. Ymddengys fod hunan-hyder y ddau yn isel iawn o ran eu gallu deallusol a'u sgiliau bywyd. Mae hanes hir o ddiweithdra yn eu teuluoedd yn mynd yn ôl dros dair cenhedlaeth, ac mae'r ddau yn eu disgrifio eu hunain mewn trafodaethau gyda'r anogwr fel "twp". Daw'r ddau o deuluoedd mawr sy'n byw mewn tai

cyngor; arferai eu brodyr a'u chwiorydd hŷn fynd i'r un ysgol, ac roedd patrwm o gyrhaeddiad isel iawn; ym marn yr anogwr roedd y plant wedi cael eu perswadio na fyddent fyth yn cyflawni unrhyw beth o ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol. Aeth yr Anogwr Dysgu ymlaen i ddisgrifio'r diddordeb yr oedd gan y ddwy ferch mewn trin gwallt, a breuddwyd un ohonynt oedd bod yn berchen ar gadwyn o siopau trin gwallt. Aethant ati i lunio cynllun 10 mlynedd ar gyfer sefydlu eu busnes trin gwallt eu hunain, yn defnyddio mapiau meddwl, ac aethant i weld cynghorwr gyrfa ar wahân i ddysgu am grantiau sefydlu busnes i bobl ifanc sy'n breuddwydio am fod yn entrepreneuriaid. (S)

Daw'n amlwg fod diddordebau a hobïau yn ystyriaethau pwysig wrth gydnabod diddordebau bob dydd pobl ifanc. Mewn achos o'r gwasanaethau ieuenctid gall yr anogwr ddisgrifio cefndir y dysgwr canlynol yn hawdd:

Mae ganddo un chwaer, mae ei fam yn nyrs a'i dad yn gyrru bysiau. Mae'n dda am rwyfo caiac, ac yn mwynhau Gwobr Dug Caeredin. Ar ddiwedd ei bumed flwyddyn yn yr ysgol enillodd chwech TGAU ond roedd yn siomedig gan nad oedd y graddau'n ddigon da iddo fynd i'r chweched dosbarth, sef yr hyn yr oedd eisiau ei wneud. Felly o fewn ychydig wythnosau cafodd swydd amser llawn yn warws siop adrannol leol. Meddai'r anogwr:

"Fel gweithiwr ieuenctid ryw'n gwybod y math yma o beth am y bobl ifanc rwy'n gweithio â nhw – ond tuedda gweithwyr proffesiynol eraill i beidio â bod â'r wybodaeth hon wrth law unwaith y bydd rhywun ifanc yn gadael ysgol…roedd wedi anobeithio ynglŷn ag astudio ymhellach…credai fod yn rhaid iddo gael pedair TGAU gradd B a dim ond tair gafodd ef."

Wrth edrych yn ôl ar yr achos hwn, mae'r Anogwr Dysgu yn pwysleisio pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc unwaith iddynt adael addysg ffurfiol. Roedd y dysgwr hwn wedi anobeithio am ei fod yn credu nad oedd ei raddau yn ddigon da,

ac wedi anwybyddu ei botensial a'i uchelgais ei hun. Nid oedd yn sylweddoli y gallai siarad â thiwtoriaid derbyn a thrafod dulliau eraill." (Y)

Mae cynllunio llwybr hefyd yn bwysig i bobl ifanc sy'n gorfod ymdopi â phontio i sefydliadau eraill ar ôl cael eu gwahardd, ond sydd serch hynny ag uchelgais cryf o ran gyrfa. Mae achos o'r gwasanaethau ieuenctid yn ymwneud â dysgwr sy'n dod o deulu o ffermwyr, ac roedd gan ei brawd hŷn hanes o chwarae triwant o'r ysgol a chyrhaeddiad addysgol isel o ganlyniad. Fe'i disgrifir fel un ddigon galluog yn academaidd ond heb unrhyw gylch cymdeithasol sefydlog y tu allan i'r ysgol – yn rhannol oherwydd lleoliad gwledig ei chartref.

Mae'r Anogwr Dysgu yn sylwi iddi gael ei bwlio'n ddifrifol ym mlwyddyn saith ac oherwydd hynny methodd lawer o amser o'r ysgol. Daeth o hyd i grŵp cyfoedion ym mlwyddyn 8 oedd yn annog ymddygiad trafferthus, a gwaethygodd y sefyllfa hon nes iddi gael tri gwaharddiad tymor sefydlog ym mlynyddoedd 9 a 10. Roedd yr ysgol wedi ceisio rhoi cymorth personol drwy'r tiwtoriaid blwyddyn, yn ogystal â pheth mentora a defnyddio cardiau adrodd i fonitro presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad. Roedd un o lywodraethwyr yr ysgol yn gwybod am enw da'r anogwr ym maes gwaith ieuenctid, a ffoniodd yr anogwr i holi a oedd modd cynnig mwy o gymorth iddi y tu allan i'r ysgol er mwyn gwneud achos F yn fwy "cymdeithasol". Ymwelodd yr anogwr â hi yn yr ysgol, ac yn ystod y cyfnodau pan oedd wedi'i gwahardd roeddent yn cyfarfod mewn canolfan ieuenctid yn rheolaidd i drafod amrywiol opsiynau yn ogystal â'i huchelgais yn yr hirdymor. (Y).

5. Natur unigryw rôl yr anogwr

Pwysleisiai'r Anogwyr Dysgu yn aml fod eu gwaith yn golygu cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau, er nad yw hyn o angenrheidrwydd yn drysu'r bobl ifanc sy'n cael y cymorth sydd arnynt ei angen. Mater o dderbyn ei bod yn anochel y bydd pethau'n gorgyffwrdd yw hi, a cheisio egluro pob swyddogaeth i ymarferwyr (a'u cydweithwyr) mewn sefydliadau mwy lleol. Fel hyn gellir cydnabod hyblygrwydd y gweithgareddau cymorth yn rhwyddach ac yn fwy hyderus, a lleihau beirniadaeth am ddyblygu adnoddau mewn modd gwastraffus. Os gellir egluro hyn yna bydd athrawon, gweithwyr ieuenctid, cynghorwyr gyrfa a chynorthwywyr cymorth dysgu yn llithro i rôl yr anogwr yn rhwydd, fel y bo'n briodol. Os yw cymorth dysgu yn dod yn brif elfen eu gwaith beunyddiol yna daw'n fwy ymarferol defnyddio teitl swydd "Anogwr Dysgu". Ymddengys mai mater o sicrhau digon o hyblygrwydd yw hi fel y gall sefydliadau addasu a chynnwys anogaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u ffyrdd o weithredu a'u terminoleg.

Aeth y tîm *Campws Cyntaf* ati i ddadansoddi'r hyn sy'n gwneud rôl anogwr yn unigryw, gan ddod i ddau gasgliad bras. Yn gyntaf, roedd y fanyleb ar gyfer rôl yr Anogwr Dysgu a geir yn y canllawiau ar gyfer y Llwybrau Dysgu 14-19 yn dal dŵr o ran diffinio ac annog yr ehangder o weithgarwch sy'n berthnasol i roi cymorth dysgu i bobl ifanc. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ymarfer ymgynghori manwl a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid llawr gwlad yn ystod cyfnod hyfforddiant craidd FfCChC o'r prosiect Anogwyr Dysgu. Yn ail, mae hefyd o gymorth i ddarparu canllawiau ynglŷn â'r rolau eraill sy'n gysylltiedig ag anogaeth, ac awgrymu ffiniau damcaniaethol y mae pawb yn eu deall. Gyda'r nod hwn mewn golwg gofynnwyd i'r grwpiau gweithredol ac ymgynghorol Anogwyr Dysgu a sefydlwyd gan y Cynulliad nodi rolau a nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â darparu cymorth i bobl ifanc.

Tabl 1: nodweddion allweddol rolau cymorth i bobl ifanc

Rôl	Nodweddion allweddol
Anogwr Dysgu	Sgiliau astudio, arddulliau dysgu, chwalu rhwystrau sy'n atal dysgu, hwyluso dewis rhwng opsiynau, datrys problemau
Mentor	Tywys a chynghori, ysgogi, bod â gwybodaeth, gofyn cwestiynau uniongyrchol, rôl uwch, cynghorydd y gellir ymddiried ynddo
Cynghorydd gyrfa	Arbenigwr mewn cyflogaeth, cynllunio llwybrau gyrfa, datblygu cynlluniau, cysylltu gyda byd gwaith
Athro	Addysgwr, neu arbenigwr pwnc sydd â sgiliau uwch, gweithio gyda grwpiau mawr yn ogystal ag unigolion, asesu, rhywun â llawer o awdurdod
Cynorthwywr cymorth dysgu	Gweithio gydag athro, helpu a rhoi cymorth ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth, ymwneud ag anghenion arbennig, gweinyddu
Gweithiwr ieuenctid	Gwella hyder a hunan-barch, cyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd, ffrind, cymryd rhan mewn gweithgarwch cymdeithasol, anffurfiol, gweithio y tu allan i'r ysgol, amryddawn
Cwnselydd	Arbenigwr gwrando, datod problemau, delio â materion difrifol, gwella iechyd a lles emosiynol, cyfrinachol

Roedd y rhestrau ymateb yn ysbrydoliaeth i greu "Matrics Lledamcanion" yn rhoi manylion am nodweddion swyddi allweddol. Roedd y matrics terfynol yn yr adroddiad llawn yn ymhelaethu ar waith

a gyhoeddwyd yn flaenorol[11] ac yna aed ati i ymchwilio'n fanylach trwy gynnal gweithdai ac ymchwil desg[12] er mwyn manylu ar nodweddion a dyletswyddau swyddi allweddol.

Y dasg derfynol yn y dadansoddiad hwn oedd gwneud synnwyr o swm ac arddull y cymorth dysgu sydd ei angen ar wahanol adegau yn ystod Llwybrau Dysgu 14-19 pobl ifanc. Arweiniodd y Matrics Lledamcanion at astudiaeth beilot gydag Anogwyr Dysgu ac arbenigwyr Gyrfa Cymru, er mwyn disgrifio "llinell amser" ganolog a oedd yn cynnwys cyngor gyrfa ar y naill law a chymorth anogwyr ar y llaw arall. Roedd y canlyniadau yn fanteisiol o ran nodi cyfrifoldebau'r naill a'r llall a'r terfynau amser ar gyfer gweithredu o fewn tîm aml-asiantaeth o arbenigwyr sy'n cefnogi pobl ifanc mewn amrywiol ffyrdd yn ystod eu taith addysg a hyfforddiant rhwng 14 a 19 oed.

6. Llwybrau i ddod yn anogwyr dysgu

Mynegodd yr Anogwyr Dysgu ddiddordeb pendant yn eu hyfforddiant pellach a'u datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain. Mewn rhai achosion roedd hyn am eu bod eisiau gwella sgiliau annog penodol, mewn eraill roedd mwy o awydd i symud tuag at statws proffesiynol. I'r unigolion hyn mae eu profiadau fel anogwyr wedi gweithredu naill ai fel catalydd neu gam tuag at symud ymlaen yn eu gyrfa.

Ymysg y pynciau cwricwlwm ar gyfer datblygiad staff pellach a grybwyllwyd dro ar ôl tro roedd:

Arddulliau dysgu
Datblygiad plant a'r glasoed
Amddiffyn plant
Gwaith grŵp
Cwnsela
Deallusrwydd emosiynol
Defnyddio technoleg gwybodaeth
Deddfwriaeth
Anghenion dysgu penodol
Addysgu

[11] **Parsloe E a Wray M (2000)** *Coaching and mentoring: practical methods to improve learning;* Kogan Page, Llundain

[12] Yn cynnwys yn benodol Gyrfa Cymru er mwyn gwahaniaethu rhwng dyletswyddau cynghorwyr gyrfa ac anogwyr, a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe er mwyn gwahaniaethu rhwng dyletswyddau cynorthwywyr cymorth dysgu ac anogwyr.

Awgryma adborth yr anogwyr felly fod angen i Anogwyr Dysgu fod yn gyfarwydd nid yn unig â'r opsiynau sydd ar gael i'w dysgwyr 14-19 oed, ond hefyd â'r opsiynau hyfforddi sydd ar gael iddynt hwy eu hunain fel anogwyr. Nodir hierarchaeth FfCChC o achredu er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol pellach anogwyr:

Tabl 2: Cymwysterau arfaethedig ar gyfer Anogwyr Dysgu

Lefel 3	Yn 2007 gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy gyfrwng y Grŵp Cynghori Anogwyr Dysgu, am gynllunio a dilysu dyfarniad *lefel 3 Anogwr Dysgu Rhwydwaith y Coleg Agored Cymru*, yn defnyddio'r un pum modiwl hyfforddi craidd a chanlyniadau dysgu o fewn cronfa ddata uned FfCChC. Bellach mae'r cyngor sgiliau sector LLUK wedi cymeradwyo hwn ac felly bydd cymhwyster Rhwydwaith y Coleg Agored ar gael yn 2008
Lefel 4	*Adysgrifau* ar gyfer hyfforddiant craidd (50 credyd)
Lefel 4	Mae lefel 4 y *Dystysgrif Addysg Uwch* yn golygu bod angen 70 o gredydau ychwanegol, gan "ychwanegu" i bob pwrpas at adysgrifau hyfforddiant craidd yr Anogwr Dysgu trwy gwblhau modiwlau pellach a achredir gan bartneriaid addysg uwch.
Lefel 5	Bwriedir cyflwyno dyfarniad *Gradd Sylfaen* newydd 240 credyd, i'w chynllunio a'i dilysu gan un neu fwy o sefydliadau addysg uwch a chan gydnabod credydau a gaiff eu cludo o'r rhaglen hyfforddiant craidd lefel 4.
Lefel 7	Trywydd *Gradd Feistr* yn ymgorffori rhaglenni ymarfer a datblygiad proffesiynol fel a gynigir gan amrywiaeth o brifysgolion.

Roedd adborth yr anogwyr hefyd yn pwysleisio bod rhai unigolion yn fodlon bod yn fwy amrywiol, ac y byddent yn ystyried ystod o drywyddion amgen o ran eu datblygiad proffesiynol parhaus. Ymysg

yr enghreifftiau o ddilyniant posibl mae darparu Graddau Sylfaen i gynorthwywyr cymorth dysgu, rhaglenni hyfforddiant athrawon, a Diplomas Cyngor Gyrfa a Chwnsela.

7. Argymhellion

Cynhyrchodd astudiaeth ymchwil *Anogwyr Dysgu Cymru* gyfres o argymhellion ar gyfer datblygu cymorth Anogwyr Dysgu ymhellach yng Nghymru. Mae'r darlun cyffredinol sy'n ymddangos o'r astudiaethau achos ac adborth o'r gwerthusiad yn gadarnhaol ac yn optimistaidd: croesewir Anogwyr Dysgu gan bobl ifanc a rhieni, ac maent yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc yn y ffyrdd a ragwelwyd yn y polisi Llwybrau Dysgu. Wrth i'r Cynulliad gyflwyno deddfwriaeth ar hawl i gymorth dysgu i bob person ifanc, mae yna heriau ac anawsterau anochel sy'n galw am gynllunio strategol a rheoli adnoddau manylach. Yn yr adroddiad llawn, rhennir 67 o argymhellion ynglŷn â datblygiadau'r dyfodol yn bedwar clwstwr. Caiff rhai o'r argymhellion hyn eu hamlygu yn y crynodeb hwn.

Clwstwr 1: diffinio rôl

Mae angen i rwydweithiau 14-19 unigol egluro'r gorgyffwrdd rhwng rolau pedair swyddogaeth cymorth, gan ddefnyddio'r Matrics Lledamcanion fel man cychwyn. Mae'r cyntaf yn cynnwys yr anogwr a'r mentor, yr anogwr a'r cynghorydd gyrfaoedd yw'r ail, yn drydydd mae'r anogwr a'r cwnselydd ac yn bedwerydd mae'r anogwr a'r cynorthwyydd cymorth dysgu.

Dechreuodd y rhaglen hyfforddi ar gyfer y garfan gyntaf o Anogwyr Dysgu ar fyr rybudd, gan arwain at recriwtio cyfranogwyr yn frysiog ar brydiau o fewn rhai Rhwydweithiau Dysgu. Argymhellir felly bod y rhaglen hyfforddi yn:

- trefnu gweithdy cyn sefydlu ar gyfer pawb sydd â diddordeb er mwyn rhoi amlinelliad o'r rôl a'r hyfforddiant

- diffinio meini prawf mynediad sylfaenol a datblygu gweithdrefnau dethol ar gyfer mynediad i hyfforddiant, mewn partneriaeth â rheolwyr y rhwydwaith 14–19

- cynnal digwyddiad sefydlu ar gyfer Anogwyr Dysgu cymwys cyn cychwyn modiwl 1.

Mae mwyafrif helaeth yr anogwyr yn gysylltiedig ag amgylcheddau ysgol a choleg, er nad ydynt bob amser wedi'u cyflogi gan y sefydliadau penodol hynny. Gall pobl ifanc – yn enwedig y rheiny sydd y tu allan i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth – fod wedi'u hallgáu o'r prif leoliadau hyn. Dylid ystyried system gwotâu ar gyfer hyfforddi er mwyn annog recriwtio mwy o anogwyr drwy:

- fudiadau'r sector gwirfoddol a phartneriaethau cymunedol

- darparwyr hyfforddiant preifat sy'n arbenigo mewn cefnogi prentisiaethau

- gweithwyr ieuenctid a chynghorwyr y Porth Ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc a ddiffinnir fel rhai sy'n ddigartref, yn derbyn gofal, yn ofalwyr, yn cael eu heffeithio gan salwch meddwl neu'n dibynnu ar gyffuriau

- y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf sy'n gweithio â phoblogaethau troseddwyr a chyn-droseddwyr

- cydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig sy'n gweithio gyda dysgwyr anabl ar ôl iddynt adael yr ysgol neu'r coleg

Mae cyflwyniad cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn arwain at rôl arbenigol i Anogwyr Dysgu mewn rhai ysgolion a cholegau, ar sail diddordeb cryf mewn datblygu portffolios sy'n cofnodi sgiliau allweddol dysgwyr. Gallai darparu cymorth dysgu mwy cyffredinol

elwa ar raglenni â mwy o strwythur o amgylch sgiliau allweddol megis datrys problemau, rheoli dysgu a chyfathrebu. Mae swyddogaeth a rôl yr Anogwr Dysgu yng nghyd-destun Bagloriaeth Cymru yn galw am archwilio rhagor o astudiaethau achos.

Clwstwr 2: yr hyfforddiant

Ceir cytundeb cyffredinol ynglŷn â chymhwysedd a pherthnasedd y cwricwlwm craidd y mae'r pum modiwl yn ymdrin ag ef, diolch i ymarfer ymgynghori cynharach â rhanddeiliaid a lywiodd ddyluniad y cwricwlwm ar gychwyn cyntaf y rhaglen. Er hynny, cafwyd rhai trafferthion cychwynnol gyda'r hyfforddiant, a chynghorir y dylid gwneud yr addasiadau canlynol:

> Dylid ailenwi Modiwl 1 yn Y Berthynas Annog er mwyn lleihau'r dryswch rhwng mentora ac anogaeth.
>
> Mae Modiwl 3 yn cynnig manylion deddfwriaethol hanfodol am ddiogelwch ac amddiffyn plant, y mae eu hangen ar yr Anogwyr Dysgu ar gychwyn cyntaf yr hyfforddiant. Hefyd, mae angen i anogwyr ddechrau datblygu perthynas â phobl ifanc ar unwaith, fel yr amlinellir ym modiwl 1. Dylid bwydo rhywfaint o'r cynnwys deddfwriaethol i'r Anogwyr Dysgu hynny sydd angen gwybodaeth frys am fframweithiau cyfreithiol o ddiwrnod cyntaf y sefydlu, a gellir atgyfnerthu'r deunyddiau hyn wedyn gydag adnoddau dysgu agored ac o bell ac astudiaethau achos. Fel hyn, darperir hyblygrwydd i'r Anogwyr Dysgu sydd angen cael gafael ar gynnwys deddfwriaethol yr hyfforddiant ar unwaith, yn hytrach na gorfod aros i'r modiwl ar ddeddfwriaeth gychwyn yn ffurfiol.

Dysgwyr yn y gwaith yw Anogwyr Dysgu, sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant ar yr un pryd ag archwilio cymwysiadau o fewn eu hamgylcheddau gwaith. Dylai'r asesiad o ganlyniadau dysgu a wneir gan ddarparwyr yr achrediad gydnabod y broses hon yn llawnach a dyfeisio tasgau asesu sy'n fwy priodol a pherthnasol i anghenion yr

anogwyr, ond sydd hefyd yn parchu cyfrinachedd y bobl ifanc y mae'r anogwyr yn gweithio â hwy. Dylai hyn gynnwys asesu perfformiad byw neu efelychiadol, yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddio portffolios, traethodau ac astudiaethau achos dro ar ôl tro.

Mae angen model hyfforddiant dilynol ar gyfer darparu modiwlau a chymwysterau ychwanegol ar sail eu hapêl i ddiddordebau arbenigol Anogwyr Dysgu sy'n cwblhau'r rhaglen hyfforddiant craidd.

Dengys arferion hyfforddi uwch mewn rhai awdurdodau lleol[13] bod graddfa fesur Agweddau Disgyblion Tuag Atynt eu Hunain a'r Ysgol (PASS)[14] yn ffordd effeithiol a brofwyd o fesur agweddau dysgwyr tuag atynt eu hunain, eu cyfoedion a'u hysgol neu goleg. Felly dylid hyrwyddo PASS – neu ddewisiadau amgen addas – yn ehangach.

Mae defnyddio'r fframwaith arddull dysgu Gweledol-Clywedol-Cinesthetig (VAK) yn gymhwysiad poblogaidd ac effeithiol; mae'r anogwyr yn gweld bod cysyniadau VAK yn gwneud synnwyr i'r bobl ifanc y maent yn gweithio â hwy. Dylai anogwyr a hyfforddwyr fod yn fwy ymwybodol o ymchwil sy'n cwestiynu dilysrwydd a dibynadwyedd mesurau o'r fath, fodd bynnag, a dylid cynnig beirniadaeth fwy trwyadl o fewn y modiwl hyfforddi Strategaethau Dysgu craidd.

Nid yw'r derminoleg a ddefnyddir mewn rhai rhestrau parod ar sgiliau astudio ac arddulliau dysgu bob amser yn briodol i'w defnyddio gyda phobl ifanc 14–19 oed, yn enwedig o ran cefnogi poblogaethau sydd wedi ymddieithrio o fyd addysg. Ceir cyfle unigryw yma i ddatblygu rhestr Llwybrau 14–19 dwyieithog cenedlaethol ar gyfer mesur arddulliau dysgu yng Nghymru. Byddai hwn yn cael ei nodweddu gan raglenni hawdd eu defnyddio sy'n addasu cyfryngau sydd eisoes ar gael, ac sy'n hawdd cael gafael arnynt drwy gronfeydd data cenedlaethol a gwefannau - gan gynnwys Gyrfa Cymru ar-lein.

[13] Mae Atodiad 1 yr adroddiad llawn yn amlygu enghreifftiau o awdurdodau lleol Caerffili a gogledd-ddwyrain Cymru

[14] **Williams G.H: Whitmore R.J. a Watts P. (2003)** *The Pupils Attitudes to Self and School User Manual;* W3 Insights: Wolverhampton

Argymhellion

Treialodd y rhaglen hyfforddi gynllun cydnabod profiad blaenorol, ond nifer fechan iawn a'i cwblhaodd oherwydd cymhlethdod y dasg a thrafferth casglu tystiolaeth. Cynghorir y dylid parhau i gynnig achrediad ar gyfer dysgu drwy brofiad blaenorol (APEL) i ymgeiswyr y dyfodol, ond ei fod yn datblygu i fod yn gyfres o dasgau asesu byw wedi'i seilio ar arsylwi perfformiad, yn hytrach na dibynnu ar greu portffolio.

Argymhellir y dylid mewnosod rhai o ganlyniadau dysgu'r rhaglen hyfforddi Anogwyr Dysgu o fewn dyfarniadau eraill a gynigir gan brifysgolion a cholegau. Yna, byddai'r broses o gynllunio cwricwlwm yn caniatáu mapio canlyniadau'n fanylach, a fyddai'n golygu ei bod yn fwy tebygol y câi cymwysterau sy'n gysylltiedig ag annog eu cydnabod. Gallai enghreifftiau gynnwys hyfforddiant athrawon, cyngor gyrfaoedd, cwnsela, arweinyddiaeth ieuenctid a dyfarniadau cymorth dysgu.

Mae cwblhau'r hyfforddiant craidd achrededig yn llwyddiannus yn arwain at set o adysgrifau credyd gan brifysgolion Campws Cyntaf. Fe'u hanfonir at anogwyr unigol sy'n dilyn byrddau dyfarnu o fewn sefydliadau addysg uwch, ac mae hyn fel arfer yn cymryd tua thri mis. Dylai consortia addysg uwch sy'n gysylltiedig ag achredu rhaglen hyfforddi genedlaethol ddatblygu dull mwy trefnus ac unedig o wobrwyo cyflawniad drwy gynhyrchu adysgrif credyd cyfunol.

Dadleuir bod angen "dyfarniad byr" lefel 4 ar gyfer Anogwyr Dysgu sy'n llwyddo i gwblhau 500-600 o oriau dysgu, sy'n adlewyrchu cryn dipyn o hyfforddiant. Dylid archwilio dyfarniad addysg uwch byr ar gyfer dysgwyr yn y gwaith, gan ddefnyddio'r rhaglen hyfforddi Anogwyr Dysgu genedlaethol fel esiampl.

Clwstwr 3: cynyddu gallu

Gall rhwydweithiau dysgu elwa ar gytuno ar fatrics ar gyfer anogaeth yn ogystal â swyddogaethau cymorth eraill. Y man cychwyn fyddai defnyddio dadansoddiad llinell amser a Matrics Lledamcanion. Felly bydd yn bwysig diffinio a monitro'r elfennau cymorth dysgu sy'n ymwneud â "phwy sy'n gwneud beth a phryd" yn rheolaidd ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran o fewn llwybrau 14-19, gan gynnwys:

- cyngor ar opsiynau cyfnod allweddol pedwar ym mlwyddyn 9
- hwyluso a monitro'r dewis o opsiynau yn 16 oed
- dewis a threfnu lleoliadau profiad gwaith dan oruchwyliaeth
- cefnogi'r trosglwyddiad o ysgol neu goleg i'r gweithle
- clustnodi a dadansoddi cyflawniad anffurfiol a heb fod yn ffurfiol

O fewn pob Rhwydwaith Dysgu dylid cysylltu'r agenda hawliau â fframwaith rheoli prosiect wedi'i seilio ar atebolrwydd wrth ddarparu cymorth dysgu. Byddai hyn yn cynnwys targedau a chwotâu ar gyfer sefydliadau a phartneriaethau unigol, gyda gyrwyr, terfynau amser a cherrig milltir cysylltiedig. Dylai atebolrwydd o'r fath hefyd gael ei atgyfnerthu drwy gael ei fonitro gan ddarparwyr adnoddau'r sector cyhoeddus yn ogystal â Phartneriaethau Pobl Ifanc a thimau arolygu ESTYN.

Mae mwyafrif gwaith Anogwr Dysgu yn ymwneud â chymorth un i un ar gyfer pobl ifanc. Er mwyn cynyddu'r cynhwysedd ar gyfer agenda hawliau, gan gydnabod hefyd bwysigrwydd perthynas grwpiau cyfoedion i ddysgu, dylid annog Anogwyr Dysgu i gymryd rhan mewn mwy o waith grŵp.

[15] **Webb A Drury S a Griffiths G (2007)** *Addewid a Chyflawniad: yr adroddiad ar yr adolygiad annibynnol o genhadaeth a phwrpas addysg bellach yng Nghymru;* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Argymhellion

Cafwyd adborth cadarnhaol a beirniadol gan werthuswyr, anogwyr, rheolwyr rhwydweithiau dysgu a thiwtoriaid ynglŷn â'r rhaglen hyfforddi genedlaethol. Roedd her logistaidd cael tîm canolog o hyfforddwyr i gyflwyno'r hyfforddiant craidd ledled Cymru yn un sylweddol, a bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu yn sgil ehangu'r rhaglen Anogwyr Dysgu ymhellach. Ar yr un pryd, mae'r rhwydweithiau dysgu wedi nodi eu hangen am agenda hyfforddi fwy lleol, yn ogystal â'r angen i gynyddu'r cynhwysedd hyfforddi er mwyn cynnwys mwy o anogwyr yn y dyfodol. Bydd y sefyllfa'n mynd yn fwy taer fyth unwaith y daw'r defnydd o Anogwr Dysgu yn hawl gyfreithiol i bob person ifanc. Cynigir y dylid rhoi model hyfforddi newydd ar waith sy'n cadw achrediad cenedlaethol a sicrwydd ansawdd drwy gonsortia addysg uwch mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond sy'n cyflwyno hyfforddiant lleol gan y 22 Rhwydwaith Dysgu.

Cynigir y dylid sefydlu rhwydwaith "prif anogwr" er mwyn datblygu haen ychwanegol o gefnogaeth ar gyfer carfanau hyfforddeion newydd gan Anogwyr Dysgu sydd wedi cwblhau'r rhaglen hyfforddi genedlaethol yn llwyddiannus.

Dangosodd yr astudiaethau achos enghreifftiau o Anogwyr Dysgu yn cynyddu cynhwysedd cymorth dysgu drwy gychwyn a chyd-drefnu rhaglenni mentora a thiwtora myfyrwyr gydag israddedigion a'r chweched dosbarth. Fel yr awgrymwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Addysg Bellach yng Nghymru[15], mae angen adolygu mentrau mentora a chydnabod yr Anogwr Dysgu fel ffigwr allweddol posibl o fewn rheolaeth gyffredinol mentora a thiwtora myfyrwyr o fewn Rhwydweithiau Dysgu.

Mae argymhellion ynglŷn â hyfforddiant datganoledig, rhwydweithiau mentora, golygu gwefannau, achrediad ar sail consortiwm a darparu deunyddiau craidd dysgu agored ac o bell, oll yn tanlinellu'r angen am dîm gweinyddol Anogwyr Dysgu craidd sy'n gwasanaethu'r holl Rwydweithiau Dysgu.

Mae creu dyfarniad Rhwydwaith y Coleg Agored lefel 3 ar gyfer Anogwyr Dysgu yn peri bod angen cynnwys un neu ragor o ddarparwyr addysg bellach. Bydd ymgynghori â cholegau a darparwyr hyfforddiant preifat, gan gynnwys rhwydweithio â *Fforwm*, yn clustnodi colegau lleol a rhanbarthol sy'n bartneriaid priodol ar gyfer achredu hyfforddiant lefel 3.

Clwstwr 4: dangos llwyddiant

Gall Anogwyr Dysgu a gyflogir gan un sefydliad, ond sydd â briff i gynnig cyngor ar ddefnyddio'r ddewislen opsiynau ar gyfer Rhwydwaith Dysgu cyfan, deimlo rhwyfaint o densiwn. A dweud y gwir yn blaen, o ystyried y system ariannu gyfredol ar gyfer darparwyr, gall fod yn fwy proffidiol i sefydliadau unigol gadw pobl ifanc yn hytrach na'u hannog i ddewis opsiynau sy'n cynnwys darparwyr cystadleuol eraill. Gellir atgyfnerthu rôl yr anogwr fel brocer drwy ddidueddrwydd a chod ymarfer y mae pob darparwr yn cofrestru ar ei gyfer. Un ateb fyddai i'r anogwyr gael eu cyflogi gan y Rhwydweithiau eu hunain, yn hytrach nag ysgolion neu golegau unigol. Posibilrwydd arall fyddai i'r Anogwyr Dysgu gael eu rheoli gan Gyrfa Cymru, sef sefydliad sy'n datgan mai agwedd ddiduedd yw un o'r nodweddion sy'n ei ddiffinio.

Wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru symud tuag at sicrhau hawliau a darparu deddfwriaeth statudol ar gyfer Llwybrau 14-19, mae angen sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cymorth dysgu y mae ei angen ac y mae'n ei haeddu. Dylid diffinio'r meini prawf a ddefnyddir gan ESTYN i gydnabod ac asesu arferion annog da drwy gyfres o weithdai ymgynghori â rhanddeiliaid, sy'n adlewyrchu'r fethodoleg sylfaenol a ddefnyddiwyd wrth gynllunio'r hyfforddiant.

Er mwyn dangos beth allai ddod yn ddarpariaeth "gyda'r gorau yn y byd" yng Nghymru, mae angen rhagor o werthuso. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad olrhain manwl o gynnydd pobl ifanc ar y llwybrau, gyda golwg ar gasglu tystiolaeth a thrafodaeth o'r effaith ar gymorth dysgu.

Mae angen cysylltu'n agosach â Phartneriaethau Pobl Ifanc a sefydliadau megis Y Ddraig Ffynci er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am anogaeth o safbwynt a phrofiad y bobl ifanc eu hunain. Dylai hyn fynd y tu hwnt i gyfyngiadau'r ymchwil gyfredol, sy'n dibynnu'n bennaf ar adborth yr Anogwyr Dysgu a rheolwyr y Rhwydweithiau Dysgu.

Dylid ystyried hefyd ganlyniadau mwy hirdymor ac anuniongyrchol anogaeth ar gyflawniadau, drwy gydnabod effaith bosibl mewn meysydd lles y tu hwnt i'r amgylchedd addysg uniongyrchol – gydag enghreifftiau'n cynnwys gwell iechyd, lles a pherthynas ag eraill.

Dylid cofnodi enghreifftiau o arferion annog llwyddiannus a'u rhannu ar draws rhwydweithiau dysgu drwy greu taflen newyddion a gwefan anogaeth genedlaethol. Dylid cynnwys yr enghreifftiau hyn hefyd o fewn adnoddau hyfforddi.

Er gwaethaf ehangder a maint gweithgarwch Anogwyr Dysgu yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf, mae angen codi ymwybyddiaeth ynglŷn â rôl yr Anogwr Dysgu o fewn rhai cylchoedd o uwch reolwyr. Dylai'r grwpiau targed ar gyfer lledaenu gynnwys porthgeidwaid adnoddau ac arweinwyr barn o fewn colegau ac ysgolion, gan gynnwys cynrychiolwyr *Fforwm* a *Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru*.

Mae data'r astudiaethau achos wedi dangos bod cymorth dysgu anffurfiol yn cael ei gyflawni drwy anogwyr sy'n bennaf gysylltiedig ag amrywiaeth o wasanaethau ieuenctid a'r Porth Ieuenctid. Ymhellach, gall gweithwyr ieuenctid gefnogi pobl ifanc yn effeithiol ar ôl iddynt adael yr ysgol neu'r coleg, y byddent fel arall yn diflannu

oddi ar y map addysgol. Cyd-destunau ysgol neu goleg sydd amlycaf yn y Rhwydweithiau Dysgu, fodd bynnag, ac mae angen mwy o ymwneud gan y gwasanaethau ieuenctid er mwyn amlygu a lledaenu'n fwy effeithiol y mathau o anogaeth effeithiol sy'n digwydd y tu allan i sefydliadau dysgu ffurfiol.

Dylai gwaith peilot Anogwyr Dysgu archwilio dichonoldeb estyn y rôl anogaeth i grwpiau oedran eraill y tu hwnt i raglenni Llwybrau 14–19.

Mae Cymru yn datblygu cryn arbenigedd mewn hyfforddi nifer fawr o Anogwyr Dysgu. Gellid atgyfnerthu'r twf parhaus hwn mewn annog drwy greu Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol ar gyfer Anogwyr Dysgu i Gymru gyfan.

Dyma 33 o argymhellion a dynnwyd o restr lawn o 67, ac maent yn adlewyrchu taith a gychwynnodd gyda llunio polisi uchelgeisiol ac a ddaeth i ben gydag arferion a gymhwysir. Cymerodd dair blynedd o gychwyn yr astudiaethau peilot i gwblhau hyfforddiant achrededig drwy 22 Rhwydwaith Dysgu Cymru. Ac oherwydd y datganiad mai statws esblygiadol sydd i Ganllawiau'r Llwybrau Dysgu, mae'r argymhellion wedi tynnu ar y dystiolaeth sydd ar gael sy'n cefnogi newid a chynnydd mewn cysylltiad â hawliau a datblygiadau deddfwriaethol y dyfodol o ran cymorth i bobl ifanc.

Nododd Raymond Williams mai ystyr bod yn wirioneddol radical yw gwneud gobaith yn bosibl yn hytrach na gwneud anobaith yn ddiamheuol. Mae'r Anogwyr Dysgu yn cynnig gobaith mewn cyfnod lle gallai ystadegau addysg a hyfforddiant ochr yn ochr ag archwiliadau sgiliau rhyngwladol achosi anobaith[16]. Mae'r astudiaethau achos yn rhoi enghreifftiau o bobl ifanc a gydnabyddir fel dysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac yn darparu rhywfaint o liw calonogol i'r hyn a fyddai fel arall yn ddarlun cyrhaeddiad cwbl ddu a gwyn. Mae'r anogwyr yn nodi dysgwyr a allai fod yn cael anawsterau ac sydd wedi cael eu cyfeirio am gymorth arbennig. Ond gallant hefyd weithio gyda'r bobl ifanc hynny sy'n fwy anweledig, sydd, fel y nododd un

[16] **Bradshaw J, Sturman l, Vappula H, Ager R a Wheater R (2007)** *Achievement of 15-year-olds in Wales: PISA 2006 national report (OECD Programme for International Student Assessment);* NFER: Slough

anogwr, "yn rhan o bapur wal" sefydliad addysgol. Efallai nad yw'r dysgwyr hyn yn achosi trafferth, ond nid ydynt ychwaith yn ymestyn i gyrraedd eu llawn botensial. Er mwyn ymgysylltu â'r holl swyddogaethau hyn, mae gan y garfan o Anogwyr Dysgu broffil amrywiol a diddorol iawn, sy'n cynnwys gwaith ieuenctid, cyngor gyrfaoedd, addysgu a chymorth dosbarth.

Gellid ystyried bod y fenter Anogwyr Dysgu gyfan hefyd yn radical, ar sail y gorgyffyrddiadau gwirioneddol a thybiedig rhwng anogwyr a gwaith proffesiynau sefydledig eraill. Gallai rhai athrawon ddweud y darperir y math hwn o gymorth dysgu eisoes, gan diwtoriaid personol er enghraifft. Gallai cynghorwyr gyfra gyfeirio at eu dyletswyddau arwain traddodiadol o ran helpu pobl ifanc i ddewis rhwng opsiynau cyflogaeth. Gallai gweithwyr ieuenctid nodi eu hanogaeth anffurfiol o hyder a hunan-barch mewn grwpiau cyfoedion y tu allan i'r ysgol a'r coleg. Mae'r ymchwil hwn wedi nodi bod y gwrthwynebiadau pesimistaidd hyn yn brin mewn gwirionedd. Yn hytrach, ceir cytundeb cadarnhaol ac adeiladol ynghylch yr angen i rannu adnoddau a llunio partneriaethau a dod o hyd i ffyrdd o ddarparu mwy o gymorth dysgu o ansawdd uchel i bobl ifanc.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod yr ymchwil a gyflwynir gydag Anogwyr Dysgu Cymru wedi'i seilio ar sampl o bobl frwdfrydig a oedd yn arloesi rôl newydd ac yn ymwneud yn gadarnhaol iawn â'r rhaglen hyfforddi. Mae angen ymchwilio ymhellach i garfanau'r dyfodol gan ddefnyddio hapsamplau, grwpiau rheoli a dulliau cyfweld diduedd. Hefyd, golwg anuniongyrchol yn unig a geir o'r bobl ifanc eu hunain yn yr astudiaethau achos, ar sail disgrifiadau Anogwyr Dysgu o unigolion a'u hamgylchiadau. Yn awr, mae angen cynnal ymchwil i safbwyntiau a phrofiadau'r dysgwyr eu hunain, gan ddefnyddio Partneriaethau Pobl Ifanc yng Nghymru fel man cychwyn posibl.

Nid astudiaeth o Anogwyr Dysgu yn unig yw hon. Mae hefyd wedi bod yn ymarfer mewn cynllunio a chyflwyno rhaglen ddysgu yn y gwaith sylweddol ar lefel genedlaethol. Daeth grŵp o brifysgolion ynghyd i ddilysu ac achredu set o fodiwlau craidd yn dilyn

ymgynghoriad manwl â rhanddeiliaid. Arweiniodd hyn at lywio cynllun y cwricwlwm hyfforddi a diffinio canlyniadau dysgu o fewn FfCChC. Croeswyd ffiniau sectorau a sefydliadau: colegau, ysgolion, asiantaethau gyfraoedd ac awdurdodau lleol. Ni fyddai'r ymchwil wedi bod yn bosibl heb gydweithrediad brwdfrydig yr holl Anogwyr Dysgu a gymerodd ran yn yr arolygon ac a gyfrannodd i'r astudiaethau achos, ond na ellir eu henwi am resymau cyfrinachedd, gwaetha'r modd.

Hoffai'r anogwyr hefyd ddiolch i'r holl ddysgwyr y buont yn gweithio â hwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae dyled yr awdur yn fawr hefyd i'r canlynol am yr holl wybodaeth a chefnogaeth a ddarparwyd yn ystod yr astudiaeth: is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion a FfCChC Cynulliad Cymru; Gyrfa Cymru; tîm hyfforddi Anogwyr Dysgu Campws Cyntaf; Jacquie Turnbull, Aly Acreman a Kevern Kerswell a'u cydweithwyr ym Mhrifysgol Morgannwg; rheolwyr Rhwydwaith Dysgu 14-19; arbenigwyr hyfforddi athrawon a mentora o brifysgolion Caerdydd, UWIC, Casnewydd, Bangor a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe; staff Ysgolion Pen y Dre a San Cyres, Coleg Dewi Sant ac awdurdod addysg lleol Caerffili; Rhwydwaith y Coleg Agored Cymru, cyngor sgiliau sector LLUK; a'r Uned Pobl a Gwaith.